# Strategaeth Mynediad i Farchogwyr Sir Gaerfyrddin

**Medi 2025**



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cynnwys** **Dudalen**


| | |
|---|---|
| 1) Rhagarweiniad | 2 |
| 2) Cymuned Farchogaeth Sir Gaerfyrddin | 3 |
| 3) Ein Gweledigaeth | 3 |
| 4) Cyfleoedd Marchogaeth Presennol | 4 |
| 5) Cyd-destun Deddfwriaeth a Pholisi | 17 |
| 6) Ymgynghori â'r Cyhoedd | 25 |
| 7) Gwerthuso Canlyniadau Allweddol yr Ymgynghori | 26 |
| 8) Casgliadau | 45 |
| 9) Camau Gweithredu | 48 |

## 1) <u>Rhagarweiniad</u>

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi datblygu'r Strategaeth Farchogaeth hon i gydnabod y diddordeb mewn cyfleusterau marchogaeth a'r galw amdanynt yn y Sir.

Cafodd yr angen am Strategaeth Farchogaeth i 'hyrwyddo a datblygu rhwydwaith hygyrch at ddefnydd marchogol' ei nodi yng Nghynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin 2019-2029.

Yn ôl Arolwg Marchogaeth Cenedlaethol diweddaraf BETA (2023), amcangyfrifir bod y boblogaeth geffylau ym Mhrydain ar hyn o bryd yn 726,000, gyda 27 miliwn o bobl yn y DU yn ymddiddori yn y diwydiant marchogaeth yn ôl y sôn.

Gwelwyd cynnydd cyson yn nifer y marchogwyr ceffylau rheolaidd yn y DU, o'r 1.8 miliwn o farchogwyr rheolaidd a gofnodwyd yn arolwg BETA 2019 i 1.82 miliwn yn 2023.

Mae data arolwg BETA yn dangos bod nifer y perchnogion ceffylau yn y DU wedi gostwng o 374,000 yn 2019 i 331,000 yn 2023, ac yn gysylltiedig â hyn roedd rhywfaint o ostyngiad mewn marchogaeth rheolaidd ymhlith y grŵp oedran 45 +. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n dangos twf o 30% ymhlith pobl 25 - 44 oed.

Datgelodd Arolwg Cenedlaethol 2023 werth economaidd o £5 biliwn y flwyddyn mewn gwariant marchogaeth. Yn ogystal, mae Cymdeithas Rasio Ceffylau Prydain (BHA) yn amcangyfrif bod eu camp yn cynhyrchu "£4.1bn mewn gwariant uniongyrchol, anuniongyrchol a chysylltiedig bob blwyddyn ar gyfer economi Prydain”.

Comisiynodd Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS) ymchwil i fanteision marchogaeth ceffylau hamdden yn y Deyrnas Unedig o ran iechyd a llesiant. Roedd yr adroddiad, a gyhoeddwyd yn 2010, yn asesu marchogaeth ceffylau fel math o ymarfer corff dwysedd cymedrol. Mae tystiolaeth ddibynadwy yn dangos bod ymarfer corff yn cynhyrchu sawl budd llesiant megis rhyngweithio cymdeithasol a newidiadau i lefelau gorbryder a hunan-barch.

Wrth gynhyrchu'r strategaeth hon, rydym wedi ymgysylltu â'r gymuned farchogaeth, defnyddwyr hamdden eraill, yn ogystal â grwpiau a busnesau perthnasol.

Mae'r strategaeth yn nodi Cynllun Gweithredu i gyflawni uchelgeisiau byrdymor a hirdymor ar gyfer darpariaeth farchogol yn Sir Gaerfyrddin sydd o dan reolaeth yr awdurdod lleol. Mae'r rhain wedi'u datblygu gan ystyried egwyddorion y pum ffordd o weithio a bennir yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Rhaglen Diwygio Mynediad sy'n mynd rhagddi yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas ag uchelgais Llywodraeth Cymru i 'ddarparu mynediad ehangach i gefn gwlad', hefyd wedi bod yn ystyriaeth wrth ddatblygu'r strategaeth hon.

Lluniwyd y strategaeth gan y tîm Mynediad i Gefn Gwlad, gyda chefnogaeth a chyfraniadau gan adrannau ar draws yr Awdurdod lleol yn ogystal â rhanddeiliaid allanol a chyrff cyhoeddus eraill.

Er mwyn cyflawni'r strategaeth hon bydd angen cydweithio rhwng adrannau Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae angen i gamau gweithredu a gyhoeddir fod yn rhai y gellir eu cyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael, gydag unrhyw amcanion uchelgeisiol yn ddibynnol ar sicrhau cyllid allanol yn llwyddiannus.

Rhaid parhau i reoli pwysau cyllidebol parhaus, rhwymedigaethau ROWIP presennol a'r galw parhaus am fynediad cyhoeddus gan bob grŵp defnyddwyr ochr yn ochr â chanlyniadau strategol y ddogfen hon.

## 2) <u>Cymuned Farchogaeth Sir Gaerfyrddin</u>

Yn ôl Astudiaeth Hamdden Awyr Agored Cymru (WORS) 2016-17 caiff gweithgareddau o bob math eu mwynhau gan y bobl sy’n ymweld â chefn gwlad, o farchogaeth a mynd am bicnic i gerdded a rhedeg.

Roedd yr astudiaeth yn dangos bod 3% o'r oedolion yng Nghymru a gymerodd ran yn mwynhau marchogaeth. Cerdded oedd fwyaf poblogaidd o bell ffordd, gyda bron i dri chwarter yr oedolion yng Nghymru (71.4%) yn gwneud hynny. Roedd llawer o'r gweithgareddau sydd â ffigurau uwch yn adroddiad WORS wedi'u neilltuo i weithgareddau a oedd yn hygyrch yn eang heb fawr o gost gysylltiedig.

Roedd y ffigur marchogaeth ymhlith un o'r isaf a gofnodwyd yn astudiaeth 2016-17. Mae hyn yn arwydd o ddifyrrwch sydd, er gwaethaf y ffigurau sylweddol yn y DU a gyhoeddwyd gan BETA, yn cael ei fwynhau gan gyfran fach o'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru.

Tra gallai canfyddiadau WORS fod yn dynodi galw isel am farchogaeth yng Nghymru, mae'r canfyddiadau gweithredol yn Sir Gaerfyrddin yn dangos difyrrwch sydd â chryn ddiddordeb a galw am ddarpariaeth.

Mae ymrwymiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP) Sir Gaerfyrddin i ddatblygu'r strategaeth hon yn dangos bod yr Awdurdod yn cydnabod bod y gymuned farchogaeth yn y Sir yn grŵp bach ond pwysig.

## 3) <u>Ein Gweledigaeth</u>

Rydym am wella mynediad i farchogaeth, o dan reolaeth yr awdurdod lleol, yn Sir Gaerfyrddin.

Byddwn yn ymdrechu i weithio ar draws portffolio'r awdurdod lleol cyfan i fanteisio ar gyfleoedd i wella a, lle bo hynny'n bosibl, ehangu mynediad i farchogwyr, gan weithio ar y cyd â'n sefydliadau partner i wireddu ein hamcanion.

Trwy gyflawni'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth hon rydym am wneud y mwyaf o'r buddion posibl o ran iechyd, llesiant a'r economi a ddaw i'n Sir yn sgil marchogaeth.

Rydym yn bwriadu gweld canlyniadau'r strategaeth hon yn cael eu gwireddu i'n cymuned farchogaeth, o fewn yr adnoddau presennol yn yr hinsawdd economaidd heriol hon i lywodraeth leol.

## 4) Cyfleoedd Marchogaeth Presennol

Mae'r cyfleoedd presennol i farchogwyr a gyrwyr car a cheffyl yn Sir Gaerfyrddin yn amrywio'n sylweddol ar draws y Sir, o ran argaeledd a chyflwr.

Mae cyfleusterau, lleoliadau, ffyrdd, llwybrau a llwybrau ceffylau pwrpasol yn cynnig cymysgedd o lwybrau marchogaeth a gyrru cyhoeddus ar y ffordd ac oddi ar y ffordd, mynediad caniataol a chyrchfannau marchogaeth sy'n talu ffioedd.

Mae'r mynediad a ddarperir gan ffyrdd, llwybrau a llwybrau ceffylau (gyda'i gilydd) yn ymddangos yn sylweddol o ran hyd, ond yn aml mae ffyrdd prysur yn torri ar draws llwybrau sy'n gallu atal pobl rhag eu defnyddio.


### 4.1 Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PROW)

Mae rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, a gofnodwyd ar Fap a Datganiad Diffiniol y Sir (ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog), yn cynnig cyfanswm o 166.06km o lwybrau ceffylau, y mae gan farchogwyr hawl gyfreithiol i'w defnyddio.

Mae gan y rhwydwaith hefyd 82.9km o Gilffordd Gyfyngedig a Chilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig (gyda'i gilydd) y mae gan farchogwyr a cherbydau a dynnir gan geffylau hawl gyfreithiol i'w defnyddio.

Caiff y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ei reoli a'i gynnal gan yr awdurdod lleol fel yr awdurdod priffyrdd perthnasol ac mae'n rhad ac am ddim ar adeg ei ddefnyddio i'r rheiny sydd â hawl gyfreithiol i'w ddefnyddio.

**LLWYBR CEFFYL**



**CILFORDD GYFYNGEDIG**



**CILFORDD SYDD AR AGOR I UNRHYW DRAFFIG**




Mae Tabl 1 isod yn darparu manylion am nifer a hyd hawliau tramwy cyhoeddus a gofnodwyd yn Sir Gaerfyrddin, sef y trydydd rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru.

**Tabl 1. Llwybrau a Hyd y Rhwydwaith (Awst 2024)**

| **Math o Lwybr** | **Nifer y Llwybrau** | **Hyd (km)** |
|---|---|---|
| Llwybr troed | 2956 | 2282.0 |
| Llwybr ceffylau | 138 | 166.06 |
| Cilffordd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig | 88 | 81.3 |
| Cilffordd Gyfyngedig | 1 | 1.6 |
| **Cyfansymiau** | **3183** | **2530.96** |

Dylid cydnabod bod llai na 10% o gyfanswm hyd y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd yn darparu unrhyw gyfleoedd mynediad i farchogwyr, ac mae'r ffigur hwn yn sylweddol is nag yn y siroedd cyfagos.




Mae Map 1, a gynhyrchwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru gynt (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach), yn dangos y rhwydwaith llwybrau ceffylau ledled Cymru gyfan.

Mae'r map hwn yn dynodi ardaloedd yng Nghymru sydd â rhwydweithiau llwybrau ceffylau da ac sy'n cynnig llwybrau marchogaeth ledled y Sir.

Mae'n amlwg o'r map bod rhwydwaith llwybrau ceffylau Sir Gaerfyrddin yn perfformio'n wael, yn enwedig o gymharu â'r Siroedd cyfagos.

Yn achos gyrwyr car a cheffyl sydd â'r hawl i ddefnyddio cilffyrdd cyfyngedig a Chilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig yn unig, gellir cael mynediad cyfreithlon at 3.27% o gyfanswm y rhwydwaith.

Mae rhwydweithiau Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig a Chilffyrdd Cyfyngedig yn amrywio'n sylweddol o ran hyd ar draws siroedd cyfagos, felly mae ffigurau Sir Gaerfyrddin yn hyn o beth yn cyd-fynd yn agosach ag Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth.

Mae rhai o lwybrau ceffylau a Chilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig y Sir wedi'u clystyru mewn ardaloedd daearyddol gweddol fach
lle mae rhai yn eithaf tameidiog.

Mae Map 2 yn dangos ehangder a dosbarthiad y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin sydd â hawliau marchogaeth a/neu yrru car a cheffyl.

Gellir gweld hawliau tramwy cyhoeddus o bob dosbarthiad ar-lein trwy fynd i Hawliau Tramwy Cyhoeddus - Map Hawliau Tramwy Cyhoeddus (esdm.co.uk).

Awgrymodd ymarfer casglu data yn 2018 fod 110km/66% o rwydwaith llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig y Sir (gyda'i gilydd) yn agored ac yn hygyrch. Nid yw'r data hwn yn gyfredol felly efallai na fydd y ffigur hwn yn adlewyrchiad gwirioneddol o'r rhwydwaith heddiw.

Yn 2024 dechreuodd yr Arolwg o'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin, a fydd yn golygu bod yr holl lwybrau ceffylau yn y Sir yn cael eu harolygu gan wirfoddolwyr hyfforddedig. Dechreuodd yr arolygon gwirfoddolwyr ym mis Ebrill 2024.

Amcangyfrifir y bydd yn cymryd tua 2 flynedd i arolygu'r holl hawliau tramwy cyhoeddus yn y prosiect ond o'r llwybrau ceffylau a arolygwyd hyd yma, adroddir bod 83% yn agored ac yn hygyrch.


Er bod y ddwy set o ddata yn anghyflawn, at ddibenion y strategaeth hon, mae data 2018 a data'r arolwg gwirfoddolwyr a gasglwyd hyd yma yn darparu ffigurau dangosol a fydd yn helpu i lunio'r strategaeth hon.

Mae is-adran Priffyrdd y Sir yn archwilio ac yn cynnal a chadw'r rhwydwaith Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig.

Ym mis Tachwedd 2018, roedd data'r arolwg priffyrdd ynghyd â'r data hawliau tramwy cyhoeddus oedd ar gael bryd hynny yn awgrymu bod tua 25km o'r rhwydwaith Cilffordd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig yn gwbl agored ac yn hygyrch.

Unwaith eto, mae oedran y data yn golygu efallai na fydd hyn yn rhoi darlun cwbl gywir o gyflwr presennol y rhwydwaith, ond mae'n rhoi ffigur dangosol at ddibenion y strategaeth hon.

Map 2. Rhwydwaith Llwybrau Ceffylau a Chilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig yn Sir Gaerfyrddin



Cyflwynwyd **Hierarchaeth Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin** yn 2021. Mae'r Hierarchaeth yn darparu fframwaith sy'n seiliedig ar risg ar gyfer blaenoriaethu prosiectau cynnal a chadw, gorfodi a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.

Llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig, a chilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig yw'r dosbarthiadau hawliau tramwy cyhoeddus
weithiau cânt eu galw'n llwybrau 'aml-ddefnyddiwr' (yn agored yn gyfreithiol i sawl dosbarth o ddefnyddwyr).

Gyda 9.8% yn unig o rwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus cyffredinol Sir Gaerfyrddin yn 'aml-ddefnyddiwr', mae'r rhain wedi'u dosbarthu fel llwybrau Categori B ar yr Hierarchaeth Rhwydwaith (Canolig-Uchel) sydd, yn amodol ar adnoddau, wedi gweld rhywfaint o welliant mewn perfformiad gweithredol a dylai hynny barhau yn y blynyddoedd i ddod.



Delwedd:wearecyclingUK

Rhaid i farchogwyr sy'n defnyddio llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig rannu'r cyfleuster gyda defnyddwyr cyfreithlon eraill, sef cerddwyr a beicwyr.

Rhoddodd Deddf Cefn Gwlad 1968 yr hawl i feicwyr ddefnyddio llwybrau ceffylau ond roedd yn nodi bod rhaid iddynt ildio i farchogwyr a cherddwyr.

Wrth ddefnyddio Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig, rhaid i farchogwyr hefyd rannu eu mynediad â cherbydau modur; fodd bynnag, derbynnir yn gyffredinol bod yr hawliau tramwy cyhoeddus hyn yn cael eu defnyddio'n bennaf gan draffig nad yw'n fodurol.

Mae'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad yn gyfrifol am lwybrau troed cyhoeddus a llwybrau ceffylau'r Sir ochr yn ochr â chadw'r cofnod cyfreithiol ar gyfer Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith cynnal a chadw a gorfodi ar gyfer Cilffordd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig ar draws Sir Gaerfyrddin yn cael ei wneud gan y tîm Priffyrdd.

### Hawliau nad ydynt yn cael eu cofnodi'n ddigonol

Derbynnir yn eang, ymhlith awdurdodau lleol a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar fynediad i hawliau tramwy cyhoeddus, bod hawliau tramwy marchogaeth yn aml yn cael eu hepgor o'r broses o gofrestru Hawliau Tramwy Cyhoeddus neu eu bod yn cael eu rhoi fel llwybrau troed.

Dechreuodd Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 y broses o gofnodi hawliau tramwy cyhoeddus ar Fap Diffiniol a Datganiad, felly mae'r dystiolaeth i gefnogi'r honiad o 'hawliau wedi'u tan-gofnodi' fel arfer wedi'i lleoli mewn archifau awdurdod lleol.

Mae'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad yn dal ac yn rheoli'r cofnod hanesyddol ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin. Mae dogfennau sy'n dyddio'n ôl i Ddeddf 1949 a'r broses gofrestru ddilynol yn darparu rhywfaint o dystiolaeth ategol i'r honiad bod yna rai llwybrau sydd â hawliau wedi'u tan-gofnodi ar draws y Sir.

Mae'r broses Gorchymyn Addasu Mapiau Diffiniol yn galluogi awdurdodau lleol i gywiro cofnod cyfreithiol o hawliau tramwy cyhoeddus lle mae'r dystiolaeth yn profi, o bwyso a mesur y tebygolrwydd, y dylai hawliau gael eu cofnodi'n wahanol.

Mae'r broses Gorchymyn Addasu Mapiau Diffiniol yn gofyn am adnoddau staff sylweddol oherwydd yr amser sydd ei angen i ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael yn briodol. O ganlyniad, mae'n anghyffredin i dimau hawliau tramwy cyhoeddus fod â'r gallu i fod yn rhagweithiol wrth ymchwilio i'r llwybrau marchogaeth posibl hyn.

Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Priffyrdd i gadw eu Map Diffiniol a'u Datganiad o dan adolygiad parhaus, gan gywiro gwallau megis hawliau a dan-gofnodwyd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Pan dderbynnir ceisiadau Gorchymyn Addasu Mapiau Diffiniol, sy'n honni bod hawliau wedi'u tan-gofnodi, gyda thystiolaeth ategol, rhaid i'r awdurdod ystyried yr achos a dod i benderfyniad o fewn 12 mis i'w dderbyn.

Mae'r llwybrau hynny a nodwyd fel rhai a allai fod wedi'u tan-gofnodi yn seiliedig ar ymarfer bwrdd gwaith yn cael eu cofnodi, ond gan nad oes amserlen na therfyn statudol yng Nghymru i ddelio â'r achosion hyn, maent yn cael sylw pan fydd amser ac adnoddau yn caniatáu hynny.

## 4.2 Rhwydwaith Ffyrdd Cyhoeddus

Gan Sir Gaerfyrddin y mae'r ail rwydwaith hiraf o ffyrdd cyhoeddus yng Nghymru. Mae gan farchogwyr hawl gyfreithiol i ddefnyddio pob dosbarth o ffyrdd cyhoeddus yn y Sir (ac eithrio traffyrdd), yn rhad ac am ddim ar adeg eu defnyddio.

Caiff y rhwydwaith ffyrdd cael ei reoli a'i gynnal a'i gadw gan yr awdurdod lleol fel yr awdurdod priffyrdd perthnasol. Mae'n ddarostyngedig i derfynau cyflymder yn amrywio o 20mya i'r terfyn cyflymder cenedlaethol.

Gall ffyrdd A prysuraf Sir Gaerfyrddin fod â mwy na 20,000 o gerbydau y dydd gyda ffigur cyfartalog o bron i 9000 o gerbydau y dydd; mae ein ffyrdd B ar gyfartaledd yn cael tua 6000 o gerbydau y dydd. Mae'r rhwydwaith ffyrdd dosbarthiadol yn ymestyn i 1865.5km ac yn darparu llwybrau prifwythiennol, cynradd ac eilaidd drwy'r Sir. Mae ffyrdd dosbarthiadol Sir Gaerfyrddin yn cysylltu â'r rhwydwaith ffyrdd diddosbarth tawelach a'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.

Mae rhwydwaith y Sir o ffyrdd bach diddosbarth yn gweld llif traffig cerbydau llawer is, nid oes ffigurau cynhwysfawr ar gyfer niferoedd y cerbydau ar ein ffyrdd diddosbarth ond lle mae monitro wedi digwydd mae 678 o gerbydau y dydd ar gyfartaledd wedi'u cofnodi.

Mae'r rhwydwaith ffyrdd diddosbarth yn ddarostyngedig i raddau helaeth i'r terfyn cyflymder cenedlaethol.

Mae Map 3 yn dangos ehangder y rhwydwaith ffyrdd diddosbarth sy'n ymestyn i 1658km ac (os caiff llwybrau 'trefol' eu hepgor) wedi'i ddosbarthu'n weddol gyfartal ar draws y Sir, llawer mwy felly na'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus aml-ddefnyddiwr.
Gelwir rhannau o'r rhwydwaith ffyrdd diddosbarth yn "lonydd gwyrdd" (term disgrifiadol) lle mae'r gall deunydd yr wyneb amrywio.

Mae dosbarthiad y llwybrau traffig isel hyn (ac eithrio rhai trefol), fel y dangosir ar y map, yn darparu cysylltiadau ag ardaloedd mynediad i farchogwyr yn Sir Gaerfyrddin sydd fel arall yn dameidiog. Gallant hefyd ddarparu llwybrau mewn ardaloedd nad oes ganddynt unrhyw ddarpariaeth mynediad i farchogwyr arall o gwbl.

Rhaid i yrwyr car a cheffyl sydd wedi'u cyfyngu i gyfran fach yn unig o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ddibynnu'n helaeth ar rwydwaith ffyrdd y Sir.

The distribution of these low trafficked routes (excluding urban), as shown on the map, provide links with otherwise fragmented areas of equestrian access in Carmarthenshire. They can also provide routes in areas lacking any other equestrian access provision at all.

Carriage drivers that are confined to only a small proportion of the PROW network must rely heavily on the County's Road network.

According to rule 204 of the Highway Code, horse riders are one of the most vulnerable non-motorised public road users, alongside pedestrians and cyclists.

Mae gan rai "lonydd gwyrdd" arwynebau heb eu seilio, gall y rhain fod yn aml yn lwybrau ceffylau ac yn anaml neu gilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig a ddefnyddir gan gerbydau.





O'r 1658km o ffyrdd diddosbarth, mae 95.8 km (tua 6%) yn cael eu galw'n "lôn werdd" ar hyn o bryd.

Gall y rhannau tawelach hyn o'r rhwydwaith ffyrdd ddarparu cyfleoedd mynediad gwerthfawr i farchogwyr.


Yn ôl rheol 204 o Reolau'r Ffordd Fawr, mae marchogwyr ymhlith rhai o'r defnyddwyr ffyrdd cyhoeddus nad ydynt yn fodurol sydd fwyaf agored i niwed, ochr yn ochr â cherddwyr a beicwyr.

Ar 29 Ionawr 2022, daeth y fersiwn ddiwygiedig o Reolau'r Ffordd Fawr i rym yn dilyn galwadau i amddiffyn defnyddwyr ffyrdd agored i niwed. Mae 'Hierarchaeth Defnyddwyr Ffyrdd' yn un o'r 8 newid a gyhoeddwyd.

Mae'r hierarchaeth hon yn rhoi'r defnyddwyr ffyrdd hynny sydd mewn mwyaf o berygl mewn gwrthdrawiad ar y brig, gyda'r defnyddwyr ffyrdd sy'n gallu peri'r niwed mwyaf yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb mwyaf am sicrhau nad ydynt yn peryglu defnyddwyr mwy agored i niwed.

Mae'r ddelwedd isod gan yr Adran Drafnidiaeth yn dangos yr hierarchaeth. Er ei fod o gymorth i ddeall, mae'r dyluniad hwn a ddefnyddir yn gyffredin yn awgrymu bod marchogwyr mewn llai o berygl o niwed na beicwyr. Dylid cydnabod nad yw hyn yn wir, ac nid dyma'r casgliad y daw'r fersiwn newydd o Reolau'r Ffordd Fawr iddo. Caiff marchogwyr a beicwyr eu dosbarthu fel defnyddwyr ffyrdd sydd yr un mor agored i niwed.

Mae'r newidiadau yn cyflwyno mesurau ymgynghorol newydd sy'n ceisio newid ymddygiad ymhlith defnyddwyr ffyrdd, ar hyn o bryd nid ydynt yn ofynion cyfreithiol.




Highway Code: new hierarchy of road users. - Credit: Press Association Images

Mae is-adran Seilwaith Amgylcheddol Cyngor Sir Caerfyrddin yn rheoli a chynnal a chadw rhwydwaith ffyrdd y Sir. Mae'r tîm Priffyrdd yn gweithio yn unol â Chynllun Rheoli Asedau Priffyrdd Sir Gaerfyrddin (HAMP), dogfen sy'n pennu dull seiliedig ar risg o dargedu adnoddau i'r ardaloedd lle mae eu hangen fwyaf a lle bydd buddsoddiad yn cael y gwerth mwyaf.

Mae Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd Sir Gaerfyrddin ar gael i'w weld ar-lein Highway Infrastructure Asset Management Policy (gov.wales)

Map 3. Rhwydwaith Ffyrdd Diddosbarth yn Sir Gaerfyrddin



## 4.3 <u>Parciau Gwledig</u>



Caiff Parciau Gwledig a Choetir Sir Gaerfurddin eu rheoli gan yr is-adran Hamdden.  Ar hyn o bryd ceir darpariaeth mynediad caniataol I farchogwyr ar ddau o'r tri phrif safle.

Mae Parc Gwledig Llyn Llech Owain a Pharc Coetir y Mynydd Mawr yn cynnig cyfleoedd marchogaeth dynodedig oddi ar y ffordd sy'n rhad ac am ddim i'w defnyddio. Ar hyn o bryd mae'r llwybrau ceffylau caniataol yn Llyn Llech Owain a'r Mynydd Mawr oddeutu 6.1km o ran hyd.

Nid oes modd parcio cerbydau cludo ceffylau yn Llyn Llech Owain ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd gellir parcio cerbydau cludo ceffylau am ddim yn y Mynydd Mawr.

Nid oes mynediad i farchogwyr ym Mharc Gwledig Pen-bre. Fodd bynnag ceir cilffordd, 2.7km o hyd, sy'n ymestyn o Heol y Ffatri, tuag at brif fynedfa'r Parc Gwledig cyn troi a dilyn y tu allan i ffin y parc tuag at y penllanw cymedrig ar draeth Cefn Sidan.

Mae'r gilffordd hon yn darparu mynediad statudol i farchogaeth ceffyl neu yrru car a cheffyl o amgylch perimedr deheuol y Parc Gwledig hyd at y penllanw cymedrig. Caniateir i farchogwyr wedyn farchogaeth o'r gilffordd i ran ddynodedig o draeth Cefn Sidan, sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin. Ar hyn o bryd ni chaniateir gyrru car a cheffyl ar y traeth.

Mae bae parcio dan reolaeth trwydded wedi'i osod ar hyd y Gilffordd hon, a ddynodwyd gan yr is-adran Seilwaith Amgylcheddol. Mae'r bae hwn yn darparu mannau parcio ar gyfer cerbydau cludo ceffylau mewn lleoliad diogel er mwyn llwytho a dadlwytho ceffylau, fel y gall marchogwyr barcio'n ddiogel a mwynhau'r gilffordd a'r mynediad i'r traeth.



## 4.4 Llwybrau beicio (Llwybrau cyd-ddefnyddio)

Mae gan Sir Gaerfyrddin rwydwaith helaeth o lwybrau beicio, sydd tua 106km ar hyn o bryd.

Mae rhai llwybrau yn rhan o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol sydd wedi'i ddatblygu ac sy'n cael ei reoli a'i gynnal gan Sustrans.

Mae llwybrau eraill wedi'u hadeiladu gan Gyngor Sir Caerfyrddin i ffurfio rhan o'r rhwydwaith Teithio Llesol neu ar gyfer cynlluniau 'Llwybrau Mwy Diogel'.

Mae Sustrans yn rheoli ac yn cynnal a chadw 19km o'r rhwydwaith beicio yn Sir Gaerfyrddin. Mae 2.4km o rwydwaith Sustrans ger Dyffryn y Swistir (Llanelli) ar agor ar gyfer mynediad caniataol i farchogwyr ochr yn ochr â beicio a cherdded dynodedig. Mae mynediad i farchogwyr i'r rhan hon o'r llwybr wedi'i awdurdodi ers sawl blwyddyn a chafodd hyn ei ddynodi ar sail addasrwydd.

Ar hyn o bryd, fel rhan o fenter 'Llwybrau i Bawb' Sustrans, mae'r holl lwybrau a reolir gan Sustrans yn y Sir yn cael eu hadolygu, a chaiff ymarfer ei gynnal i nodi mwy o lwybrau sy'n addas ar gyfer darparu mynediad i farchogwyr ar draws eu rhwydwaith.

Mae Sustrans a Chymdeithas Ceffylau Prydain wedi ymrwymo i femorandwm cyd-ddealltwriaeth i nodi a datblygu cyfleoedd i hyrwyddo manteision y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol i'r cyhoedd o ran defnyddio aml-ddulliau teithio, gan gynnwys marchogwyr.

Mae'r neges hyrwyddo aml-ddulliau yn estyn allan at lywodraeth genedlaethol, rhanbarthol a lleol, cyrff statudol, ffurfwyr barn, cyd-bartneriaid eraill, a chyllidwyr posibl.

Datblygwyd rhwydwaith llwybrau beicio'r awdurdod lleol i'w ddefnyddio gan feicwyr a cherddwyr yn unig. Adeiladwyd y rhwydwaith yn bennaf gyda chyllid Teithio Llesol, at ddibenion teithio diogel, cynaliadwy a llesol.

Caiff y gwaith o ddatblygu rhwydwaith llwybrau beicio'r Cyngor Sir yn strategol, ei gynnal a'i gadw'n barhaus a pharhau i'w wella ei arwain gan yr is-adran Seilwaith Amgylcheddol.

## 4.5 Ystâd Goedwigaeth Llywodraeth Cymru

Caiff Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ei rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Dynodwyd cyfran sylweddol o'r ystad yn fynediad caniataol i farchogwyr.

Gall marchogwyr a gyrwyr car a cheffyl ddefnyddio rhannau o'r ystad goetir ar draws Sir Gaerfyrddin ar gyfer marchogaeth o dan delerau Concordat rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas Ceffylau Prydain (BHS).

Mae Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn ymestyn i ryw 7167 hectar sy'n hygyrch i farchogwyr yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r ddau brif floc ym Mrechfa a Chrychan sy'n darparu'r mynediad hwn yn rhan ogleddol y Sir.

Mae Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn cynnwys rhwydwaith o lwybrau ceffylau a ffyrdd coedwig. Adeiladwyd y ffyrdd coedwig hyn at ddibenion cynaeafu coed a gweithrediadau coedwigaeth sydd hefyd yn darparu mynediad hamdden caniataol i farchogwyr, ac i ddefnyddwyr hamdden

eraill. Caiff y ffyrdd coedwig hyn eu cynnal a'u cadw cyn ac ar ôl gweithrediadau coedwigaeth ac maent yn darparu llwybrau eang a chadarn. Mae'r llwybrau hyn hefyd yn addas ar gyfer gyrru car a cheffyl.

Ceir mynediad agored ar gyfer gyrru car a cheffyl yng Nghrychan ac mae CNC yn gweithredu system ganiatâd ar gyfer gweddill Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y lleoliadau hyn ar gael yn Cyfoeth Naturiol Cymru / Marchogaeth ceffylau a gyrru car a cheffyl.

Mae rhai safleoedd Ystad Goetir Llywodraeth Cymru wedi'u heithrio o'r cytundeb mynediad caniataol, mae coedwig Pen-bre yn un o'r safleoedd hyn. Caniateir mynediad i farchogwyr ar y safle hwn ond rhaid i ddefnyddwyr brynu trwydded flynyddol gan Ymddiriedolaeth Cadwraeth Pen-bre sy'n rheoli'r mynediad i geffylau ar ran CNC Ymddiriedolaeth Cadwraeth Pen-bre: Trwyddedau Ceffylau (pembeyconservationtrust.blogspot.com

Mae coedwig Pen-bre yn gyrchfan boblogaidd i farchogwyr a chyda'r galw cynyddol, mae CNC yn ymwybodol o bryderon ynghylch mannau digonol i ddeiliaid trwyddedau barcio cerbydau cludo ceffylau. Bydd CNC yn gweithio gyda'r Awdurdod Lleol i ystyried opsiynau ynglŷn â sut y gellir mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Mae Map 4 yn dangos prif ardaloedd Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn Sir Gaerfyrddin wedi'u harlliwio mewn gwyrdd golau gyda chylch glas o'u hamgylch.


Mae'n bwysig cofio bod y mynediad hwn yn cael ei ganiatáu mewn coedwigoedd gweithredol a gall rhai lleoliadau gael eu cau am resymau diogelwch neu yn ystod adegau penodol o'r flwyddyn oherwydd gwaith coedwigaeth. Mae CNC yn gofyn i bob defnyddiwr ceffylau ddilyn unrhyw arwyddion diogelwch a ddarperir ar y safle ac ufuddhau iddynt.

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymwneud llawer â'r mynediad caniataol i farchogwyr a ddarperir ar draws Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, caiff ei reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru.



Delwedd - Cymdeithas Coedwig Crychan

Map 4 – Ardaloedd Ystad Goedwigaeth Llywodraeth Cymru



### 4.6 Canolfannau Marchogaeth

Ar gyfer perchnogion nad ydynt yn berchnogion ceffylau, mae cyfleoedd i farchogaeth neu yrru cerbydau yn dibynnu ar ganolfannau marchogaeth sy'n cynnig y cyfleusterau angenrheidiol am ffi. Mae canolfannau marchogaeth ar hyd a lled y Sir yn cynnig gwersi a phrofiadau marchogaeth (marchogaeth ar Draeth/Coedwig/Mynydd) ar gyfer pob oedran.

Mae canolfannau marchogaeth Sir Gaerfyrddin yn cynnig eu gwasanaethau i bobl o bob gallu, o ddechreuwyr llwyr i farchogwyr profiadol, ac mae llawer hefyd yn cynnig cyfleoedd marchogaeth i'r anabl.

Roedd adroddiad blynyddol y BHS yn 2022 yn datgelu bod dros 8.7 miliwn o wersi marchogaeth wedi'u cyflwyno'n ddiogel trwy eu canolfannau marchogaeth a gymeradwywyd gan BHS.

Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau marchogaeth ledled y DU mewn perchnogaeth breifat ac yn cael eu rhedeg yn breifat. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymwneud â'r gwaith o gynllunio na chyflwyno cyfleoedd marchogaeth drwy ganolfannau marchogaeth y Sir, felly ni fydd y strategaeth hon yn cynnig unrhyw ymyriadau mewn cyfleusterau canolfannau marchogaeth.

### 4.7 Lleoliadau Cystadlu a Hyfforddi

Mae gan Sir Gaerfyrddin sawl lleoliad sy'n cynnig cyfleoedd mewn nifer o ddisgyblaethau cystadleuol. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnal digwyddiadau cystadlu a hyfforddi wedi'u trefnu, fel rheol am ffi cyfranogiad, mynediad neu aelodaeth.

O gyfleoedd rasio ceffylau yng Nghae Rasio Ffos-las, rasio harnais yng Nghlwb Trotian Dyffryn Aman i leoliadau amlddisgyblaeth megis campws astudiaethau ceffylau Coleg Sir Gâr, Beacons Equestrian, Parc Coombe a Chanolfan Farchogaeth Little Mill, mae'r Sir yn cynnig ystod dda o gyfleoedd i farchogwyr cystadleuol.

Mae angen i gystadleuwyr gael eu hyswiriant atebolrwydd cyhoeddus eu hunain er mwyn defnyddio'r mathau hyn o gyfleusterau cystadleuol.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau cystadleuol ledled y DU mewn perchnogaeth breifat ac yn cael eu rhedeg yn breifat. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymwneud â'r gwaith o gynllunio na chyflwyno cyfleoedd marchogaeth yn y mathau hyn o leoliadau, felly ni fydd y strategaeth hon yn cynnig unrhyw ymyriadau yn y mathau hyn o gyfleusterau.

### 4.8 Lleoliadau Llogi Preifat

Ceir sawl lleoliad llogi preifat yn Sir Gaerfyrddin sy'n cynnig cyfleusterau i'w llogi ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblaethau marchogaeth, am ffi.

Mae'r lleoliadau hyn yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau, yn bennaf ar arwynebau pob tywydd er mwyn gallu eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn, gyda mannau parcio ar gyfer cerbydau cludo ceffylau fel y gall ymwelwyr gludo eu ceffylau a defnyddio'r cyfleusterau waeth beth fo'u lleoliad.

Fel rheol mae angen i gyfranogwyr gael eu hyswiriant atebolrwydd cyhoeddus eu hunain er mwyn defnyddio'r mathau hyn o gyfleusterau.

Mae'r lleoliadau hyn mewn perchnogaeth breifat ac yn cael eu rhedeg yn breifat. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymwneud â'r gwaith o gynllunio na chyflwyno cyfleoedd marchogaeth yn y mathau hyn o leoliadau, felly ni fydd y strategaeth hon yn cynnig unrhyw ymyriadau mewn cyfleusterau llogi preifat.

## 5) Cyd-destun Deddfwriaeth a Pholisi

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddeddfwriaeth genedlaethol neu bolisi cymeradwy sy'n ymwneud â hyrwyddo neu wella marchogaeth.

Mae Canllawiau Teithio Llesol (Cymru) 2021 yn cynnwys amcanion cyhoeddedig sy'n ymwneud â mynediad i farchogwyr.

Roedd strategaeth Cydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain 2005 ar gyfer Cymru a Lloegr yn cynnwys, ymhlith yr wyth nod a gyhoeddwyd ganddynt, y nod o gynyddu mynediad at farchogaeth oddi ar y ffordd a gyrru car a cheffyl.

Cyrhaeddodd 'Strategaeth ar gyfer y Diwydiant Ceffylau yng Nghymru a Lloegr' ddiwedd ei thymor 10 mlynedd yn 2015. Nid oes adolygiad wedi'i gyhoeddi o'r strategaeth i werthuso'r hyn a gyflawnwyd ganddi; fodd bynnag, mae'r Rhaglen Diwygio Mynediad yng Nghymru, sy'n cynnwys cynigion i gynyddu cyfleoedd i farchogwyr, wedi adeiladu ar strategaeth 2005.

Mae'r Rhaglen Diwygio Mynediad yn parhau i fynd rhagddi yng Nghymru ac mae ganddi'r potensial i gael effaith sylweddol ar gyfleoedd mynediad i farchogwyr yn y Sir. Trwy'r rhaglen ddiwygio mae Llywodraeth Cymru eisiau darparu mynediad ehangach i gefn gwlad at ddibenion hamdden.

Gall diwygiadau arwain at newid deddfwriaethol allweddol i wella hygyrchedd y rhwydwaith PROW ar gyfer marchogwyr (a beicwyr), er na fyddai'r cynigion yn peri newid i gyfleoedd mynediad ar gyfer gyrwyr car a cheffyl.

Rhaid ystyried y broses Diwygio Mynediad barhaus wrth ddatblygu'r strategaeth hon, er bod rhaid i unrhyw gamau sy'n deillio o'r ddogfen fod yn rhai y gellir eu cyflawni o fewn y fframweithiau deddfwriaethol cyfredol.

Rhaid cydnabod ac ymgorffori dyletswyddau a rhwymedigaethau ehangach yr Awdurdod lleol a osodir gan ddeddfwriaeth a pholisi allweddol (yn genedlaethol ac yn lleol) lle bo hynny'n bosibl.

**Cenedlaethol (yn nhrefn eu dyddiad)**

- **Canllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru 2021**

Canllawiau sy'n cefnogi dyletswyddau ac amcanion y Ddeddf Teithio Llesol (2013) yn bennaf, megis mapio llwybrau teithio llesol, darparu llwybrau teithio llesol newydd a gwell, rhoi sylw i gerdded a beicio a hyrwyddo teithiau teithio llesol.

Fodd bynnag, mae canllawiau diweddaraf 2021 yn cynnwys darpariaethau i sicrhau nad yw mentrau teithio llesol yn peri anfantais i farchogwyr ar hyd llwybrau y maent yn eu mwynhau ar hyn o bryd, a lle ceir galw mawr gan farchogwyr ar hyd llwybr, dylid asesu pa mor ddichonol yw eu cynnwys.

Gall yr ychwanegiad hwn at y canllawiau gael effaith nodedig ar gamau gweithredu a ddatblygwyd o fewn y strategaeth hon i wella'r hyn sydd gan awdurdodau lleol i'w gynnig i farchogwyr yn Sir Gaerfyrddin.

- **Deddf yr Amgylchedd 2021**

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn gweithredu fel fframwaith newydd y DU er diogelu'r amgylchedd, gan ymgorffori diogelu'r amgylchedd yn y gyfraith. Mae'r Ddeddf yn cynnig pwerau newydd i osod targedau rhwymol newydd, gan gynnwys rhai ar gyfer ansawdd aer, dŵr, bioamrywiaeth, a lleihau gwastraff.

Mae rhai o'r dyletswyddau statudol newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf 2021 yn effeithio ar y camau gweithredu a ddatblygwyd ar gyfer y strategaeth hon. Er enghraifft, er budd diogelu'r amgylchedd, bydd angen rhoi sylw dyledus i'r datganiad polisi egwyddorion amgylcheddol.

Bydd angen ystyried y ddyletswydd i warchod a gwella bioamrywiaeth hefyd wrth gynllunio'r gwaith o gyflawni camau gweithredu strategol. Yn aml, mae darparu mynediad yn gofyn am glirio tir, adeiladu a/neu seilwaith ar draws ardaloedd o gefn gwlad agored neu dros dir heb ei ddatblygu, a allai fod yn gyfoethog mewn bioamrywiaeth.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**

Sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn cael o leiaf yr un ansawdd bywyd ag yr ydym ni'n ei gael nawr yw prif amcan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Ddeddf yn rhoi ar waith fframwaith datblygu cynaliadwy mwy cydlynus i Gymru trwy set o saith nod llesiant, egwyddor datblygu cynaliadwy a dyletswydd gref i bob corff

cyhoeddus gynnal gwaith datblygu cynaliadwy, gan adlewyrchu’r angen i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r Strategaeth Farchogaeth hon yn cyflawni amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel y dangosir yn nhabl 2 isod:

Tabl 2. 7 Nod Llesiant Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

| ***Nod Llesiant*** | **Strategaeth Farchogaeth Sir Gaerfyrddin** |
|---|---|
| ***Cymru lewyrchus*** | Cymru a'r Gorllewin yw'r ail ranbarth marchogaeth mwyaf sy'n cyfrannu at wariant marchogaeth blynyddol o £9.1 biliwn ledled Prydain *Fawr (Arolwg Marchogaeth BETA 2023)*<br><br>Mae cymuned farchogaeth Sir Gaerfyrddin yn ganran fach o gyfanswm y boblogaeth; fodd bynnag, mae gwariant blynyddol yn gymesur uwch fesul person nag mewn gweithgareddau eraill fel cerdded, rhedeg a beicio.<br><br>Mae marchogwyr yn cyfrannu at yr economi ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gweithgareddau economaidd fel stablau hurio, canolfannau cystadlu a chyfleusterau i'w llogi, ac mae gan y Sir sawl un ohonynt.<br><br>Dylai gwella mynediad i farchogwyr drwy gyfres o gamau gweithredu tymor canolig a hirdymor, gan weithio gyda phartneriaid perthnasol a chynnwys rhanddeiliaid, wneud Sir Gaerfyrddin yn fwy deniadol i ddefnyddwyr marchogaeth yn y tymor canolig ac i fusnesau a gweithredwyr twristiaeth yn y tymor hwy. |
| **Cymru gydnerth** | Byddai cynnig mynediad marchogaeth gwell a mwy cysylltiedig yn Sir Gaerfyrddin yn cyfrannu at allu Cymru i addasu i newid yn yr hinsawdd.<br><br>Trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch marchogaeth hamdden yn ehangach, byddai llai o angen i deithio i ardaloedd sydd â gwell darpariaeth yn y Sir neu ymhellach i ffwrdd.<br><br>Byddai effaith niferoedd uchel o ymwelwyr i ardaloedd sydd â darpariaeth mynediad well hefyd yn cael ei lleihau, gan ledaenu niferoedd ymwelwyr ar draws y Sir. |

| | |
|---|---|
| **Cymru iachach** | Mae gan lecynnau cyhoeddus y potensial i greu manteision iechyd a llesiant a gallant helpu lliniaru achosion ac effeithiau anweithgarwch.<br><br>Gall llecynnau cyhoeddus ddarparu lleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a gweithgareddau cymunedol, ac mae ganddynt rôl allweddol i'w chwarae yn cynnal dogfennau strategol eraill, megis y strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant.<br><br>Gallai Strategaeth Farchogaeth Sir Gaerfyrddin ddefnyddio manteision mannau agored i wella iechyd a llesiant y gymuned farchogaeth.<br><br>Mae hyn arbennig yn wir yn enwedig am fenywod dros 45 oed, y nododd ein harolwg eu bod yn gyffredin yn y Sir, ac mae tueddiadau'n dangos eu bod yn llai gweithgar mewn gweithgareddau mannau agored poblogaidd eraill fel beicio a rhedeg.<br><br>Byddai camau strategol sy'n gwella darpariaeth mewn ardaloedd sydd â niferoedd uchel o berchnogion ceffylau yn rhoi cyfleoedd i breswylwyr yn lleol a gallent gyfrannu at wella iechyd yn y cymunedau hynny. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartel** | Mae seilwaith mynediad i farchogwyr yn gynhwysol wrth natur. Mae'n darparu cyfleoedd nid yn unig ar gyfer marchogaeth a gyrru car a cheffyl, ond ar hefyd gyfer beicio, rhedeg ac i bobl â symudedd cyfyngedig.<br><br>Gall nodweddion darpariaeth marchogaeth mewn rhai ardaloedd gyfyngu ar fynediad i rai defnyddwyr. Fodd bynnag, byddwn yn ymdrechu i ddatblygu a chyflawni camau gweithredu strategol sy'n ymestyn y cynnig mynediad gwell fel bod modd i bob aelod o'r gymdeithas ei fwynhau. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Mae'r strategaeth hon yn cynnwys cymunedau, y Fforwm Mynediad Lleol, sefydliadau eraill a rhanddeiliaid i gyflawni camau gweithredu strategol sydd wedi'u hanelu at wella'r cynnig mynediad marchogaeth yn Sir Gaerfyrddin.<br><br>Dangoswyd bod gweithio ar y cyd yn y ffordd hon yn gwella cydlyniant cymunedol ac yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Mae tirweddau yn chwarae rhan arwyddocaol mewn arferion diwylliannol arbennig ar draws y Sir, megis technegau adeiladu a chelf a llenyddiaeth sy'n benodol i'r ardal leol.<br><br>Bydd y strategaeth hon diogelu unrhyw agweddau diwylliannol ar y tir a'r amgylchedd ehangach y caiff mynediad i farchogwyr ei gynnal, ei wella neu ei ehangu trwyddo. |

| | |
|---|---|
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Mae'r amgylchedd yn cyflenwi ein holl adnoddau materol. Bydd y strategaeth hon yn sicrhau ein bod yn defnyddio ein cyfran deg yn unig wrth gynnal, gwella a datblygu mynediad i farchogwyr o dan reolaeth yr awdurdod lleol.<br><br>Bydd darparu cyfleoedd marchogaeth i bobl yn eu hardaloedd lleol yn helpu i leihau'r angen am gludo ceffylau ac felly ôl troed carbon preswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. |

Dylid nodi nad oes angen i bob polisi/blaenoriaeth o fewn y Strategaeth Farchogaeth gyflawni pob un o'r saith nod. Yn hytrach, drwy gael cyfres gynhwysfawr o gamau gweithredu strategol, bydd y strategaeth yn ei chyfanrwydd yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- **Y Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru 2013**

Yng ngoleuni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i atal marwolaethau ac anafiadau ar ffyrdd Cymru, cyhoeddwyd Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru yn 2013.

Roedd y fframwaith yn cynnwys tri tharged ar gyfer lleihau anafiadau i'w cyflawni erbyn 2020 ochr yn ochr â 98 o gamau gweithredu i'w cyflawni gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid.

Roedd y fframwaith yn nodi defnyddwyr ffyrdd marchogol fel rhai sy'n agored i niwed ar y rhwydwaith ffyrdd, a gall unrhyw wrthdrawiad sy'n ymwneud â cheffyl beryglu bywydau pawb sy'n rhan o'r ddamwain.

Y camau gweithredu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yw 'gweithio gyda chynrychiolwyr o'r gymuned farchogol i ddeall eu pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd a hwyluso'r gwaith o ymgysylltu â phartneriaid eraill.'

Y camau a gyhoeddwyd ar gyfer partneriaid megis awdurdodau lleol yw 'mynd ati i ymgysylltu â'r gymuned farchogol ac ystyried a ddylid cyflwyno unrhyw ymyriadau diogelwch ar y ffyrdd, lle ceir nifer sylweddol o farchogwyr a/neu wrthdrawiadau traffig ffyrdd sy'n cynnwys ceffylau.'

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach.

Mae'n erbyn y gyfraith i wahaniaethu yn erbyn unrhyw un sydd ag un neu fwy o 9 nodwedd warchodedig gan gynnwys oedran a rhyw. Mae amddiffyniad cyfreithiol rhag gwahaniaethu yn berthnasol bron ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd, gan gynnwys fel defnyddiwr ac wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

Rhaid i'r awdurdod ystyried y Ddeddf yn weithredol pan fyddwn yn darparu ein gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid i ni felly ddatblygu a chyflawni pob agwedd ar y strategaeth hon, gan roi ystyriaeth briodol i rwymedigaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb.

- **Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000**

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn cynnwys mesurau i wella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig, a hynny gan gydnabod buddiannau cyfreithlon y rheiny sy'n berchen ar y tir hwnnw ac yn ei reoli. Fodd bynnag, nid yw'r mynediad gwell yn ymestyn i ddefnyddwyr marchogol ar hyn o bryd.

Cyflwynodd y Ddeddf gategori newydd o hawliau tramwy cyhoeddus – Cilffordd Gyfyngedig – sy'n cario hawliau ar droed, ar gefn ceffyl, arwain ceffyl ac ar gyfer pob cerbyd nad yw'n cael ei yrru'n fecanyddol. Gweithredwyd y categori hwn i ddisodli'r categori RUPP amwys (ffordd a ddefnyddir fel llwybr cyhoeddus) gan roi eglurder i farchogwyr a gyrwyr car a cheffyl ynghylch eu hawliau i ddefnyddio llwybrau penodol sydd â dosbarthiad RUPP.

Mae hefyd yn cynnwys pwerau ychwanegol i glirio llystyfiant sydd wedi gordyfu ar gyfer marchogwyr, sydd o gymorth i ddiogelu rhwydwaith marchogaeth diogel a hygyrch.

- **Deddf Priffyrdd 1980 (HA80) a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (WCA81)**

Fel y ddau brif ddarn o ddeddfwriaeth Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n cofnodi, yn diogelu ac yn cynnal y rhwydwaith, mae pob agwedd ar waith, cynlluniau a pholisi hawliau tramwy cyhoeddus a gyflwynir gan yr awdurdod yn cydymffurfio â HA80 ac WCA81.

Mae cymhwyso HA80 a WCA81 yn diogelu cofnod cyfreithiol o hawliau tramwy cyhoeddus sydd â hawliau marchogaeth ac yn sicrhau bod y llwybrau hynny'n cael eu

cynnal.
Rhaid i gamau gweithredu a ddatblygir ar gyfer y strategaeth hon geisio bodloni'r swyddogaethau statudol hyn wrth geisio gwelliannau ar gyfer mynediad i farchogwyr ar hyd hawliau tramwy cyhoeddus yn unol â datganiad gweledigaeth y strategaeth.

**Lleol (yn nhrefn perthnasedd)**

- **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin 2019-2029**

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy presennol Sir Gaerfyrddin yw'r brif ddogfen sy'n llywio'r gwaith o reoli hawliau tramwy cyhoeddus a mathau eraill o fynediad hamdden yn y Sir. Mae'r cynllun yn rhychwantu 10 mlynedd ac mae'n cynnwys 5 prif nod, 24 polisi a chyfres o 47 o gamau gweithredu ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus a gwella mynediad.

Roedd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn nodi'r angen am Strategaeth Farchogaeth ac mae'n dymuno ei gweld yn cael ei chyflawni ar lefel Polisi. Fodd bynnag, y tu hwnt i fodloni'r prif amcan hwn o 'gynhyrchu strategaeth farchogaeth', dylai canlyniadau'r strategaeth gyd-fynd â nodau ehangach y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

- **Hierarchaeth Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin 2021**

Mabwysiadwyd Hierarchaeth Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin yn 2021. Cafodd eu chreu a'i gweithredu at ddibenion datblygu dull sy'n seiliedig ar risg o flaenoriaethu a dyrannu adnoddau ar gyfer cynnal a chadw, gwella a gorfodi'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.

Mae'r Hierarchaeth yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin.

Mae'r rhannau o'r rhwydwaith sydd ar gyfer aml-ddefnyddwyr yn cynnig mynediad i'r ystod ehangaf o ddefnyddwyr hamdden, gan gynnwys y rheiny sy'n aml yn y lleiafrif. Felly, nodwyd llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd fel llwybrau sydd â blaenoriaeth canolig-uchel.

Mae'r categorïau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd hawliau tramwy cyhoeddus aml-ddefnyddiwr Sir Gaerfyrddin ac wedi cefnogi'r gwaith o gyflwyno Strategaeth Farchogaeth. Bydd pwysigrwydd hawliau tramwy cyhoeddus aml-ddefnyddiwr yn cryfhau'r achos dros gamau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau tramwy cyhoeddus i

wella'r rhwydwaith marchogaeth, a ddatblygwyd yn y strategaeth hon.

- **Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd Sir Gaerfyrddin 2018**

Mabwysiadwyd Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd Sir Gaerfyrddin yn 2018. Cafodd ei ddatblygu i gydnabod y rôl hanfodol y mae'r rhwydwaith priffyrdd yn ei chwarae wrth helpu i symud nwyddau a phobl yn ddiogel yn y Sir a'r her o gadw'r rhwydwaith priffyrdd mewn cyflwr da yn wyneb disgwyliadau uchel gan y cyhoedd a llai o gyllid.

Nid yw gwerth y Rhwydwaith Priffyrdd o safbwynt hamdden a'r modd y gallai wasanaethu defnyddwyr marchogol yn ystyriaeth allweddol o fewn y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd. Fodd bynnag, fel defnyddwyr cyfreithlon y rhwydwaith, bydd marchogwyr yn teimlo effaith y cynllun rheoli wrth iddo gael ei gyflawni, ochr yn ochr â phob defnyddiwr mynych arall.

Bydd canfyddiadau allweddol y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, yn enwedig ynghylch blaenoriaethu'r rhwydwaith ffyrdd, yn cael dylanwad sylweddol ar y camau gweithredu a gynhwysir yn y strategaeth hon sy'n dibynnu ar y rhwydwaith Priffyrdd.

- **Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd Sir Gaerfyrddin 2021**

Mae'r Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd yn ffurfio Rhan 4 o'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd ac mae'n cael ei ddatblygu fel portffolio o lawlyfrau penodol sy'n ymdrin â rheoli ystod o gategorïau o asedau priffyrdd.

Bydd y dull o gynnal a chadw'r asedau ar hyd llwybrau a ystyrir yn werthfawr at ddefnydd marchogaeth yn cael ei gynnwys yn y llawlyfrau hyn pan fyddant wedi'u cwblhau, a bydd yn cael dylanwad sylweddol ar y camau gweithredu yn y strategaeth hon sy'n dibynnu ar y rhwydwaith Priffyrdd.

- **Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin: Y Sir Gâr a Garem (2018-23)**

Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Sir yn 2018 ac mae'n nodi'r amcanion lleol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Sir a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn eu cyflawni.

Mae Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin yn canolbwyntio ar gyflawni pedwar amcan, sef Arferion Iach, Ymyrraeth Gynnar, Cysylltiadau Cryf a Phobl a Lleoedd Llewyrchus.

Fel strategaeth leol, dylai'r gyfres o gamau gweithredu a ddatblygir yn y ddogfen hon

gyd-fynd lle bo'n bosibl â'r amcanion llesiant i gynorthwyo i gyflawni nodau llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- **Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2018-2033**

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn pennu cynigion a pholisïau ar gyfer y defnydd o'r holl dir yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol (ac eithrio'r rhan sydd wedi'i chynnwys ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) ac mae'n rhan o fframwaith y cynllun datblygu ar gyfer Cymru.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno'r 2il CDLl Diwygiedig Adneuo a'r dogfennau cysylltiedig i Lywodraeth Cymru a Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) ac mae Disgwyl i Archwiliad Annibynnol o'r CDLl a adneuwyd ddechrau ar 15 Hydref 2024.

O ystyried y goblygiadau y gall mynediad eu cael ar ddefnydd tir yn y Sir, dylai'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Farchogaeth derfynol ystyried unrhyw Nodau, Polisïau a Chamau Gweithredu a gyhoeddwyd yn y CDLl.

## 6) Ymgynghori â'r Cyhoedd

Defnyddiwyd nifer o ddulliau gwahanol i gasglu sylwadau ar y cyfleoedd marchogaeth yn Sir Gaerfyrddin drwy gyfrwng ymgynghoriad rhwng 21Mehefin 2021 a 25Gorffennaf 2021.

Gofynnon ni beth yw diddordebau a phrofiadau ymatebwyr o farchogaeth yn y Sir, beth mae pobl yn ei fwynhau, y cyfleoedd maen nhw'n eu gweld a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu.

Cynhaliwyd arolwg yn electronig trwy dudalen ymgynghori ar-lein y Cyngor ar y wefan. Ymhellach, cafodd ei ddosbarthu'n uniongyrchol i sefydliadau a chlybiau.

Gydag ychydig iawn o ddata presennol ar gael ar gyfer marchogaeth yn Sir Gaerfyrddin neu yng Nghymru gyfan, roedd yr arolwg yn un helaeth er mwyn cael darlun cywir yn seiliedig ar dystiolaeth o'r diwydiant yn Sir Gaerfyrddin.

Roedd yr arolwg yn gofyn i'r ymatebwyr am eu barn ar wahanol elfennau o farchogaeth yn Sir Gaerfyrddin i helpu i lunio'r Strategaeth Farchogaeth.

Holwyd pobl oedd yn cymryd rhan mewn marchogaeth am gefndir cyffredinol marchogaeth yn eu cartref gan gynnwys cyfleoedd a rhwystrau i gymryd rhan mewn marchogaeth yn Sir Gaerfyrddin. Roedd hyn yn cynnwys y rheiny sy'n teithio i Sir Gaerfyrddin i farchogaeth/gyrru car a cheffyl gan nad ydynt yn byw yn Sir Gaerfyrddin.


Holwyd busnesau am eu masnach Marchogaeth yn y Sir.

Holwyd Cynghorwyr a Chynghorau Cymuned am gyfleoedd yn eu hardaloedd gweinyddol, a

holwyd sefydliadau/grwpiau sy'n gweithredu yn y Sir am eu haelodaeth a'u blaenoriaethau ar gyfer marchogaeth.

Derbyniwyd cyfanswm o 502 o ymatebion gan wahanol rannau o'r gymuned farchogaeth.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn unigolion (95%). Yn ogystal, cwblhaodd 17 o fusnesau, 6 sefydliad/grŵp, 1 cyngor tref a chymuned ac 1 aelod etholedig lleol yr arolwg ar-lein. Dangosir dadansoddiad o'r ymatebwyr yn ffigur 1 isod.




Ffigur 1 – Dadansoddiad o'r ymatebwyr

## 7) <u>Gwerthuso Canlyniadau Allweddol yr Ymgynghori</u>

### 7.1 Oedran, Rhywedd, Ethnigrwydd ac Anabledd

O'r unigolion hynny a gwblhaodd yr ymgynghoriad cyhoeddus, roedd mwy na hanner dros 45 oed.

Menywod yn bennaf a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad gyda 416 o fenywod (87%) a 52 (11%) o ddynion yn cymryd rhan.

Ethnigrwydd gwyn oedd yn bennaf ymhlith y cyfranogwyr gyda 95% yn adrodd eu bod o ethnigrwydd gwyn.

Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod y gymuned farchogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys menywod o ethnigrwydd gwyn yn bennaf, yn y grwp oedran uchaf.

Efallai nad yw'r canlyniad oedran ac ethnigrwydd hwn yn syndod o ystyried bod data Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn dynodi bod y rheiny sydd dros 45 oed yn y grwp oedran mwyaf o'r boblogaeth. Yn ogystal, mae 95.6% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin o ethnigrwydd Gwyn *(data Cyfrifiad 2011)*.

Mae'r canlyniad hefyd yn adlewyrchu darlun y DU o rywedd ac oedran mewn marchogaeth i raddau helaeth. Canfu *Arolwg Marchogaeth Cenedlaethol Cymdeithas Masnach Marchogaeth Prydain (BETA) 2023* fod 58% o farchogwyr yn fenywod. Roedd 38% o'r

cyfranogwyr yn ddynion, a oedd yn gynnydd o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol ac roedd 8% mewn categori newydd sef anneuaidd. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd mewn dynion sy'n marchogaeth, yn genedlaethol mae marchogwyr yn parhau i fod yn fenywod yn bennaf.

Mae ystadegau'r BHS a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019 yn nodi bod gweithgareddau ceffylau yn ymwneud â chyfran uchel o 'gyfranogwyr benywaidd a chyfranogwyr dros 45 oed' *(Statistics for Equestrian Access in England & Wales, BHS, Nov 2019).*

Fodd bynnag, mae data BETA 2023 mwy diweddar yn dangos bod y niferoedd sy'n cymryd rhan yn y grŵp oedran uwch hwn wedi gostwng, gyda'r grŵp oedran 25-44 oed yn ymddangos fel y grŵp oedran pennaf. Nid oedd y demograffig oedran newidiol hwn i'w weld yn Sir Gaerfyrddin yn 2021; fodd bynnag, pe bai ein hymgynghoriad yn cael ei ailgyhoeddi, efallai y byddem yn awr yn gweld rhywfaint o newid i broffil oedran marchogaeth y Sir.

Mae ystadegau'r BHS hefyd yn nodi bod cyfran uchel o bobl ag anableddau yn ymwneud â gweithgareddau ceffylau; nid yw canlyniadau ein harolwg yn ategu'r honiad hwn yn llawn gyda mwyafrif y cyfranogwyr (91%) yn nodi nad oes ganddynt anabledd hirdymor.

Er bod y canlyniad anabledd yn gwyro oddi wrth y duedd genedlaethol a adroddwyd gan y BHS, dylai barhau i fod yn ystyriaeth yng ngoleuni Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae demograffeg rhywedd marchogaeth yn wahanol i ddemograffeg rhywedd gweithgareddau poblogaidd eraill sy'n ymwneud â mynediad cyhoeddus.

Mae ffigurau Cymdeithas y Cerddwyr yn dangos bod cerdded yn weithgaredd sy'n cael ei fwynhau i'r un graddau gan y ddau ryw ar draws ystod oedran eang o 16 oed i 65+ oed *(Ramblers Association Facts and Figures 2 – Participation in Walking).*

Mae ystadegau o'r *Sport in Wales UK Dossier, Walking and Cycling in Wales: Active travel 2018-19 and Cycling UK Statistics 2019-20* yn dangos bod dynion a phobl iau yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn beicio.

Mae'r darlun demograffig o farchogaeth o ddata ein harolwg yn dangos bod galw helaeth gan fenywod sy'n byw yn y sir ac sy'n ymweld â'r sir am gyfleoedd marchogaeth yn Sir Gaerfyrddin.



Pan fydd cyfleoedd mynediad ar gyfer cerdded, beicio, marchogaeth a gyrru car a cheffyl yn croesi, gallai demograffeg wahanol y rheiny sy'n cymryd rhan gael effaith ar agweddau grwpiau defnyddwyr ac ar ddichonoldeb rhannu cyfleoedd mynediad yn ddiogel ac yn gyfartal.

Delwedd: Cymdeithas Ceffylau Prydain

## 7.2 Cyfranogiad Aelwydydd

Nododd dros hanner (51%) o'r 439 o **ymatebwyr unigol** fod 1 oedolyn yn yr aelwyd yn marchogaeth neu'n gyrru car a cheffyl gyda 36% arall yn nodi bod 2 oedolyn yn marchogaeth neu'n gyrru car a cheffyl.

Yn ychwanegol at hyn, nododd dros hanner (54%) yr ymatebwyr hefyd fod o leiaf 1 plentyn o dan 13 oed sy'n marchogaeth neu'n gyrru car a cheffyl ar eu haelwyd gyda 27% arall yn nodi bod 2 blentyn yn eu cartref yn marchogaeth neu'n gyrru car a cheffyl.

Gan ystyried yr holl ffigurau cyfranogiad aelwydydd, mae canlyniadau'r ymgynghoriad yn dangos cyfanswm o 650 o unigolion sy'n cymryd rhan weithredol mewn marchogaeth yn Sir Gaerfyrddin, ac mae 23% ohonynt yn blant o dan 13 oed.

## 7.3 Gweithgareddau a Chyfleusterau Poblogaidd

Yn ôl canlyniadau ein harolwg, y ddisgyblaeth farchogaeth fwyaf cyffredin i oedolion a phlant yw hacio (marchogaeth ceffyl ar gyfer ymarfer corff ysgafn naill ai neu ar neu oddi ar y ffordd ar gyflymder cyffredin).

Ar ôl hacio, y gweithgaredd mwyaf cyffredin nesaf ar gyfer y ddau grŵp oedran yw marchogaeth nad yw'n gystadleuol, ac yna gwersi a hyfforddiant. Cynhyrchodd data arolwg BETA 2023 ganlyniadau tebyg yn y maes hwn.

Mae'r ddau grŵp oedran yn cymryd rhan mewn disgyblaethau marchogaeth cystadleuol i raddau llawer llai na disgyblaethau nad ydynt yn gystadleuol / at ddibenion hamdden.

Yr ardaloedd mwyaf cyffredin i gyfranogwyr farchogaeth neu yrru car a cheffyl oedd y ffordd, llwybrau hawliau tramwy cyhoeddus oedd y cyfleuster mwyaf poblogaidd nesaf, ac yna marchogaeth mewn arena yn dynn wrth ei sodlau. Roedd marchogaeth ar eich tir ei hun neu mewn coedwig yn boblogaidd gyda 44% a 40% o'r ymatebwyr yn y drefn honno. Marchogaeth/gyrru car a cheffyl ar draethau, mewn parciau gwledig ac ar fynydd oedd lleiaf cyffredin.

Mae bron pob un o'r cyfleusterau uchod yn cael eu defnyddio gan amlaf ar gyfer hacio a marchogaeth nad yw'n gystadleuol, ac eithrio arenâu sy'n cael eu defnyddio'n fwy cyffredin ar gyfer gwersi a hyfforddiant.

Yn ôl y sôn, dim ond 4% o blant a 3% o oedolion sy'n cymryd rhan mewn gyrru car a cheffyl yn Sir Gaerfyrddin.

## 7.4 Perchnogaeth Ceffylau a Cheffylau mewn Gwaith.

O'r 439 o ymatebwyr **unigol** a gwblhaodd yr ymgynghoriad cyhoeddus, roedd 50% yn berchen ar naill ai 1 neu 2 geffyl a dywedodd 70% fod 1 neu 2 geffyl mewn gwaith (yn cael ei

farchogaeth neu ei yrru).

Er bod 22% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn berchen ar 4 neu fwy o geffylau, dim ond 13% a nododd fod 4 neu fwy o geffylau mewn gwaith.

Roedd data 2023 ar gyfer ceffylau, merlod ac asynnod â microsglodion a ddarparwyd gan Defra (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) yn rhoi cyfanswm o 32,340 o geffylau yn Sir Gaerfyrddin yn seiliedig ar gôd post.

*Sylwer, gwnaed amcangyfrif cyfrannol o gyfanswm y ffigur lle roedd ardaloedd côd post yn disgyn yn sylweddol y tu allan i Sir Gaerfyrddin.

Mae wedi bod yn ofyniad cyfreithiol i roi microsglodyn ar bob ceffyl, merlyn ac asyn, waeth beth fo'i ddefnydd, ers 2018.

Mae'r un data Defra 2023 hefyd yn darparu ffigur ar gyfer perchnogion ceffylau ym mhob ardal côd post yn Sir Gaerfyrddin. Cyfanswm y ffigur a adroddwyd ar gyfer perchnogion ceffylau yn y Sir yw 8,523, unwaith eto gan ddefnyddio ffigur amcangyfrifedig ar gyfer ardaloedd côd post rhannol; mae hyn yn cyfateb i 4.5% o gyfanswm poblogaeth Sir Gaerfyrddin.

Os cymerir cyfartaledd o'r data hwn, yna roedd perchennog ceffylau nodweddiadol yn Sir Gaerfyrddin yn 2023 yn berchen ar rhwng 3 a 4 ceffyl/merlyn, mae hyn yn ffigur uwch na chanlyniadau ein hymgynghoriad. Gallai'r ffaith fod asynnod wedi'u cynnwys yn nata Defra esbonio'r gwahaniaeth hwn, er y gallai tueddiadau perchnogaeth fod wedi newid rhywfaint ers 2021 hefyd.

Mae ffigur Defra yn ystyried yr **holl** geffylau, merlod ac asynnod sy'n eiddo i bobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, boed yn marchogaeth, yn cael eu gyrru, ar gyfer bridio neu wedi ymddeol. Oherwydd hyn, nid yw data Defra yn dangos faint o geffylau sy'n cael eu marchogaeth neu eu gyrru'n rheolaidd yn y Sir, ac felly bod ganddynt anghenion mynediad.

Er mwyn cael amcangyfrif rhesymol o nifer y ceffylau **gweithredol** sy'n bresennol ar draws y Sir, gallwn ddefnyddio nifer y perchnogion ceffylau yn Sir Gaerfyrddin (wedi'u cymryd o ddata Defra 2023), ynghyd â'r ffigur cyfartalog ar gyfer ceffylau/merlod 'mewn gwaith' a nodwyd fel y mwyafrif yn ein hymgynghoriad yn 2021.

Drwy gyfuno'r ddau ffigur hyn (8,523 o berchnogion x 1.5 o geffylau) gallwn amcangyfrif yn rhesymol oddeutu 12,784 o geffylau a bod eu perchnogion/marchogwyr eisiau manteisio ar gyfleoedd marchogaeth Sir Gaerfyrddin.

O ran amlder, canfu ein hymgynghoriad yn 2021 fod y rhan fwyaf o oedolion (55%) ar gyfartaledd yn marchogaeth/gyrru 3-5 gwaith yr wythnos trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r nifer amcangyfrifedig o geffylau a merlod mewn gwaith rheolaidd, yn cyfateb i alw dyddiol gan 12,000+ o farchogwyr am fynediad/cyfleusterau ond mae'n tynnu sylw at angen wythnosol sylweddol a rheolaidd yn y Sir.

## 7.5 Ardaloedd gyda'r Mwyaf o Weithgarwch/Cyfranogiad Ceffylau

Roedd ein harolwg yn gofyn i gyfranogwyr sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin nodi ym mha ardal Cyngor Tref neu Gymuned y maent yn cadw eu ceffyl(au).

Defnyddiwyd hyn i gael darlun o'r ardaloedd sy'n debygol o fod â'r cyfranogiad marchogaeth uchaf yn seiliedig ar ddwysedd perchnogaeth, ac felly'r ardaloedd sydd â'r galw mwyaf am fynediad.

Mae Map 5 yn dangos canlyniadau arolwg 2021; mae'r trefi a'r cymunedau sydd â'r nifer uchaf o geffylau a gedwir gan gyfranogwyr yr arolwg i'w gweld yn amlwg.

Mae data microsglodyn Defra 2023 wedi'i fapio yn yr un modd i wirio'r clystyrau mewn perchnogaeth ceffylau a'r galw tebygol am gyfranogiad/mynediad.

Er nad yw data Defra yn rhoi cyfrif am ble y gall ceffyl fod yn cael ei gadw gan mai cyfeiriad y perchennog a gofnodir mewn microsglodyn, yn y rhan fwyaf o achosion mae'n debygol y bydd ceffyl yn cael ei gadw yn gymharol agos at ei berchennog cofrestredig er hwylustod.

Mae map 6 yn dangos canlyniadau data Defra 2023; mae'r ardaloedd côd post gyda'r dwysedd uchaf o geffylau mewn perchnogaeth yn Sir Gaerfyrddin i'w gweld yn glir.

Mae mapiau 5 a 6 yn dangos rhai nodweddion tebyg, gyda'r ddau yn dangos bod gan dde'r Sir ddwysedd uwch o geffylau, er nad i'r un graddau. Mae'r ddau hefyd yn dangos bod gan fand canolog y Sir ddwysedd cymharol gymedrol i isel.


Fodd bynnag, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y 2 fap yn y gogledd.

Roedd data arolwg 2021 yn dangos poblogaeth ceffylau isel iawn yng ngogledd Sir Gaerfyrddin, lle mae data Defra yn dangos dwysedd uchel ar draws y gogledd, yn enwedig yn y gogledd-ddwyrain.


O ystyried maint y gwahaniaethau mewn data o ogledd y Sir, mae'n annhebygol bod treigl amser (2021-2023) wedi creu anghysondeb o'r fath, mwy tebygol yw'r diffyg diddordeb yn arolwg 2021 gan breswylwyr sy'n byw yng ngogledd Sir Gaerfyrddin.

Gan fod data Defra yn fwy cynhwysfawr, mae map 6 a gynhyrchwyd o ddata Defra yn creu darlun mwy dibynadwy o'r boblogaeth farchogaeth yn Sir Gaerfyrddin, wedi'i ategu'n rhannol gan fap 5.

MAP 5 – Ble mae Preswylwyr Sir Gaerfyrddin yn cadw eu Ceffylau (Arolwg Cyngor Sir Caerfyrddin 2021)



Map 6 – Ble mae perchnogion ceffylau â microsglodyn yn byw yn Sir Gaerfyrddin (Defra 2023)



## 7.6 Rhwystrau i Oedolion Gymryd Rhan Mewn Marchogaeth

Y gweithgareddau marchogaeth mwyaf poblogaidd a'r ardaloedd lle maent yn digwydd a amlinellwyd yn 7.3 oedd hacio a marchogaeth nad yw'n gystadleuol, yn fwyaf cyffredin ar y ffordd ac ar y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.

Dywedodd 67% o oedolion eu bod yn aml yn wynebu peryglon wrth farchogaeth/gyrru ar ac oddi ar y ffordd. Adroddodd 26% o'r cyfranogwyr fod peryglon i'w gweld o bryd i'w gilydd; dywedodd 2% nad oeddent yn dod ar draws unrhyw beryglon.

### 7.6.1 <u>Ar y Ffordd (traffig)</u>

Y rhwystr mwyaf arwyddocaol i farchogaeth/gyrru ar y ffordd gyda 97% o'r ymatebwyr yn dweud ei fod yn rhwystr i gymryd rhan oedd traffig.

Gyda nifer y symudiadau traffig ar rai o ffyrdd y Sir a natur agored i niwed ceffylau wedi'i hamlygu yn 3.2, efallai nad yw'n syndod bod traffig yn peri'r pryder mwyaf i'r rheiny sy'n defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd.

Mae erthyglau fel yr un a gyhoeddwyd ar 6 Ionawr 2021 yn Horse and Hound (*I won't let my horse die for nothing': heartbroken owner's determination to make roads safer*) yn tynnu sylw at ddifrifoldeb yr anafiadau i'r marchog/gyrrwr a'r ceffyl a all ddeillio o wrthdrawiad rhwng cerbydau a cheffylau.

Nid yw data damweiniau'r heddlu ar gyfer 2010-2024 (gwrthdrawiadau anafiadau personol) wedi datgelu unrhyw ddamweiniau ffordd yn ymwneud â cherbyd(au) modur a cheffyl(au) yn Sir Gaerfyrddin. Dim ond achosion sy'n ymwneud ag anaf personol sy'n cael eu cofnodi ar gronfa ddata'r heddlu; gallai hyn esbonio ffigur mor isel lle mae ein data yn awgrymu y gallai fod yn fwy arwyddocaol.

Nid yw data'r heddlu ar ei ben ei hun yn cefnogi canfyddiadau ein harolwg.

Ers 2010 mae'r BHS wedi bod yn casglu eu data digwyddiadau eu hunain trwy BHS www.horseaccidents.org.uk. Nid yw'r data yn cael ei gasglu trwy adrodd gorfodol felly nid yw'n bendant, ond gall unigolion adrodd a mapio digwyddiadau neu ddamweiniau sy'n gysylltiedig â cheffylau sy'n ymwneud â cherbydau modur.

Mae ystadegau'r BHS ar ddigwyddiadau ffyrdd sy'n gysylltiedig â cheffylau a adroddwyd trwy gyfrwng safle damweiniau ceffylau yn ystod 2023 wedi'u cyhoeddi eleni. Yn 2023 ledled y DU, cofnodwyd 3,383 o ddigwyddiadau ffyrdd yn ymwneud â cheffylau. Mae ystadegau hefyd yn dangos bod 3 o bobl wedi marw a 94 o bobl wedi'u hanafu yn sgil y digwyddiadau hyn ynghyd â 66 o geffylau wedi marw ac 86 o geffylau wedi'u hanafu. Yn ôl adroddiadau ar safle'r BHS, digwyddodd 85% o'r digwyddiadau oherwydd bod gyrrwr wedi pasio'n rhy agos neu'n rhy gyflym.

Mae nifer y digwyddiadau a gofnodwyd gan y BHS yn cyd-fynd â data ein harolwg yn fwy na data'r heddlu.

Mae'n ddiogel dweud bod y risg ymddangosiadol cerbydau modur ar ffyrdd Sir Gaerfyrddin yn rhwystr sylweddol i gymryd rhan mewn perthynas â'r ymatebwyr sy'n rhan o'n hymgynghoriad. Ni ddylid anghofio ychwaith ein bod yn amcangyfrif bod ein hymatebwyr yn cyfateb i 73% o gyfanswm y gymuned farchogaeth weithredol yn Sir Gaerfyrddin.

Mae lefelau'r digwyddiadau gwirioneddol a adroddwyd i'r Heddlu yn is nag y byddem yn disgwyl iddynt beri rhwystr mor nodedig i gymryd rhan, ond mae data'r BHS yn cefnogi'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr yn ein harolwg.

Mae gan yr 'Hierarchaeth Defnyddwyr Ffyrdd' newydd a'r gofyniad cysylltiedig i yrwyr roi 2 fetr o le i geffylau wrth basio ar ddim mwy na 10mya y potensial i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â marchogaeth/gyrru car a cheffyl ar ffyrdd, ond gyda'r newidiadau yn eu dyddiau cynnar ni allwn fesur unrhyw welliant diogelwch ar hyn o bryd.

Er bod y dystiolaeth yn dangos darlun ychydig yn amrywiol o risgiau i farchogwyr ar ein ffyrdd, o bwyso a mesur ymddengys bod mwy o dystiolaeth o risg nodedig a rhaid ystyried hyn wrth benderfynu ar yr angen am fesurau lliniaru yn hyn o beth.

### 7.6.2 Ar y Ffordd (beicwyr)

Nododd dros hanner yr ymatebwyr (62%) fod beicwyr yn rhwystr i farchogaeth/gyrru ar y ffordd.

Mae beicio'n cynyddu o ran ei boblogrwydd. Yn 2010 roedd 46% o aelwydydd yng Nghymru yn berchen ar feic (*Ystadegau Trafnidiaeth Cymru 2010).* Erbyn 2013-2014, roedd data a gasglwyd gan Cycling UK yn dangos bod 51% o bobl yng Nghymru yn berchen ar feic neu fod ganddynt ddefnydd o feic, ar draws pob grŵp oedran o 16 oed i fyny. Y grwpiau oedran 16–24 a 25-44 oed oedd yn adrodd y ffigurau uchaf yn yr ymarfer hwn, gyda'r ddau grŵp yn nodi bod 63% ohonynt yn berchen ar feic neu fod ganddynt ddefnydd o feic (*CyclingUK, Ystadegau Cymru 2013-14).*

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i gynllunio a darparu rhwydwaith o lwybrau i wneud cerdded a beicio y ffordd fwyaf dymunol o deithio o gwmpas o ddydd i ddydd.

Cyhoeddodd Sir Gaerfyrddin Strategaeth yn 2018 a oedd yn cynnig gweledigaeth gyda'r bwriad o sicrhau mai Sir Gaerfyrddin yw 'Canolbwynt Beicio Cymru'. Nod y strategaeth yw darparu ar gyfer teithiau lleol bob dydd a seilwaith ar gyfer digwyddiadau mawr.

O ystyried hyn i gyd, mae'n anochel bod yna nifer cynyddol o feiciau i'w gweld ar ffyrdd y Sir.

Mae partneriaeth rhwng y BHS a We Are Cycling UK wedi cael ei ffurfio, sy'n cydnabod y problemau posibl rhwng y ddau grŵp hyn o ddefnyddwyr agored i niwed ac mae wedi arwain at yr ymgyrch 'Be Nice Say Hi'.

Gallai partneriaethau cadarnhaol fel hyn, a'r ymgyrch arfer da sydd wedi digwydd o ganlyniad, arwain at fod y rhwystr hwn yn cael ei oresgyn i ryw raddau. Fodd bynnag, dylid cydnabod yn y strategaeth hon ei fod yn rhwystr sydd wedi'i nodi a bod angen rhoi ystyriaeth iddo.

### 7.6.3 Ar y Ffordd (cŵn)

Dywedodd ychydig llai na hanner cyfranogwyr ein harolwg (47%) fod cŵn yn rhwystr i farchogaeth/gyrru ceffylau ar y ffordd.

Mae cronfa ddata digwyddiadau'r BHS hefyd yn gwahodd pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â chŵn. Unwaith eto, mae'r data hwn yn cael ei fapio a'i gyhoeddi ar wefan BHS. Fodd bynnag, mae'r digwyddiadau a adroddwyd i'r BHS yn bennaf yn rhai oddi ar y ffordd felly nid ydynt yn ategu barn yr ymatebwyr yn ein hymgynghoriad.

Mae rhoi gwybod am ddigwyddiadau i'r BHS yn ddewisol felly nid yw data'r BHS yn derfynol, er ei fod yn ddefnyddiol.

Yn absenoldeb unrhyw ddata arall, mae angen i ni wneud didyniadau rhesymol a chymesur mewn perthynas â chŵn fel rhwystr gwirioneddol i farchogaeth ar y ffordd.

### 7.6.4 Ar y Ffordd (cyflwr y ffyrdd)

Cyflwr llwybrau, seilwaith ac opsiynau'n seiliedig ar gynnal a chadw oedd y rhwystrau llai a nodwyd i fwynhau marchogaeth/gyrru ar y ffordd. Mae'r canlyniad hwn yn gymeradwyaeth galonogol i'r gwaith cynnal a chadw parhaus sy'n digwydd ar rwydwaith ffyrdd sylweddol y Sir, er gwaethaf heriau'r gyllideb yn hyn o beth.

Bydd Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd Sir Gaerfyrddin a'r Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd yn sicrhau y bydd y gwaith o gynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd yn parhau i gael ei flaenoriaethu'n briodol yn unol â'r risg i ddiogelu defnyddwyr.

### 7.6.5 Oddi ar y Ffordd (gatiau)

Un o'r rhwystrau mwyaf cyffredin i farchogaeth oddi ar y ffordd a adroddwyd gan ymatebwyr oedd 'gatiau anodd'
(59%)

Cyfrifoldeb y tirfeddiannwr yw gatiau a'r holl gelfi llwybr ar rwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Mae data hawliau tramwy cyhoeddus cyfredol ar gyfer gatiau ar lwybrau ceffylau a chilffyrdd yn dangos bod 32 o faterion sy'n gysylltiedig â gât wedi'u hadrodd ar y rhwydwaith. Yn absenoldeb data arolwg cynhwysfawr o'r holl lwybrau ceffylau a chilffyrdd, ni allwn fod yn sicr bod y ffigur hwn yn cynrychioli'r holl faterion yn ymwneud â gatiau, ond mae'n tynnu sylw at yr angen parhaus am gamau gorfodi a/neu wella gan y tîm Mynediad Cefn Gwlad.

Yn yr un modd, cyfrifoldeb y tirfeddiannwr yw cynnal a chadw gatiau ar safleoedd mynediad caniataol oddi ar y ffordd, ond nid yw bob amser yn glir i'r defnyddiwr (defnyddwyr) pwy yw'r tirfeddiannwr.

### 7.6.6 Oddi ar y Ffordd (wyneb)

Adroddodd 53% o'r cyfranogwyr bod arwynebau gwael yn rhwystr i gymryd rhan.

Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw wyneb llwybrau hawliau tramwy cyhoeddus. Caiff arwynebau yr adroddwyd eu bod yn 'wael' eu hasesu
o ran risg a chânt eu hatgyweirio/eu gwella ar sail blaenoriaeth fel y mae'r adnoddau'n caniatáu. Ar hyn o bryd mae yna 25 o faterion yn ymwneud ag arwynebau wedi'u cofnodi ar naill ai lwybrau ceffylau neu gilffyrdd at sylw'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad (llwybrau ceffylau) neu'r tîm Priffyrdd (cilffyrdd).

Cyfrifoldeb y tirfeddiannwr yw wyneb safleoedd caniataol oddi ar y ffordd. Fel gyda gatiau, gall fod yn anodd gwybod pwy yw'r tirfeddiannwr.

### 7.6.7 Oddi ar y Ffordd (cŵn)

Roedd 52% o'r ymatebwyr yn adrodd bod cŵn yn rhwystr i gymryd rhan oddi ar y ffordd.


Caiff data digwyddiadau'r BHS hefyd ei gasglu mewn perthynas â chŵn. Mae Map 7 yn dangos nifer yr achosion yn ymwneud â chŵn a adroddwyd yn Sir Gaerfyrddin a'r cyffiniau rhwng 2010 a 2021. O edrych yn

fanylach ar y map ceir cadarnhad bod y rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyn wedi digwydd oddi ar y ffordd.

Mae'r darlun cyffredinol a roddir gan y map yn dangos nifer gymedrol o ddigwyddiadau ond o'u dadansoddi flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae rhwng 1 a 3 digwyddiad yn cael eu hadrodd ar gyfartaledd bob blwyddyn.

Nid yw'r ffigur hwn yn cyd-fynd â chanlyniadau ein harolwg. Fodd bynnag, fel gyda'r pryder a adroddwyd am gŵn ar y ffordd, mae'r adroddiadau'r BHS yn ddewisol, felly mae'r data yn ddefnyddiol ond nid yw'n bendant. Yn yr un modd, mae angen i'n didyniadau fod yn rhesymol ac yn gymesur yn seiliedig ar y data sydd ar gael.

Map 7 - Data Digwyddiadau'r BHS sy'n ymwneud â chŵn (2010-2021)




## 7.6.8 Oddi ar y Ffordd (beicwyr)

Dywedodd 37% o'r ymatebwyr fod beicwyr yn rhwystr i ddefnyddio'r rhwydwaith oddi ar y ffordd at ddibenion marchogaeth. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r BHS, mae'n debygol bod y pryderon hyn yn fwy cyffredin ar lwybrau sy'n addas i feicio ar gyflymder uwch megis y rheiny sydd ar lethr.

Roedd pryderon mewn perthynas â beicwyr wrth farchogaeth/gyrru oddi ar y ffordd yn llai o gymharu â data marchogaeth/gyrru ar y ffordd; fodd bynnag, mae'r materion a'r mesurau lliniaru yn berthnasol yn y naill sefyllfa a'r llall.

Y gobaith yw y bydd cydnabyddiaeth genedlaethol o'r gwrthdaro posibl a'r ymgyrch ledled y DU a lansiwyd eisoes yn gwella'r canfyddiad o ryngweithiadau rhwng beicwyr a marchogwyr, ac yn lleihau'r graddau y caiff beicwyr eu gweld fel rhwystr i gymryd rhan.

### 7.6.9 Oddi ar y Ffordd (da byw)

Mae da byw yn berygl sy'n eithaf unigryw i farchogaeth/gyrru oddi ar y ffordd, sydd i'w gael yn fwyaf cyffredin ar hawliau tramwy cyhoeddus.

Dim ond 29% o'r ymatebwyr a nodwyd da byw fel rhwystr i gymryd rhan. Er ei fod yn ffigur calonogol o isel, o'i gyfuno â chyfleusterau marchogaeth oddi ar y ffordd sy'n dameidiog ac mewn rhai ardaloedd yn gyfyngedig iawn na all pob un o'n hymatebwyr eu cyrchu'n rhesymol, mae'n dod yn ganlyniad mwy arwyddocaol na ddylid ei ddiystyru.

### 7.6.10 Oddi ar y Ffordd (arall)

Cyfunwyd y rhwystrau eraill a nodwyd (cerbydau/peiriannau, tirfeddianwyr, cerddwyr) a'u heffaith ar gyfranogiad i gynhyrchu canlyniadau o lai na 30%.

Unwaith eto, mae'r rhain yn ffigurau cymharol isel a allai ddangos pryder llai arwyddocaol, ond o ystyried argaeledd cyfleusterau marchogaeth/gyrru oddi ar y ffordd yn y Sir maent yn ganlyniadau na ddylid eu hanwybyddu.

## 7.7 Goresgyn Rhwystrau i Gyfranogiad Oedolion

Fel rhan o'r ymgynghoriad ac i gael rhywfaint o ddata a allai helpu i lywio ein camau gweithredu yn y dyfodol i leihau rhwystrau i gyfranogiad oedolion, gofynnwyd i'r cyfranogwyr beth fyddai'n eu helpu i farchogaeth neu yrru'n amlach.  Mae Ffigur 2 isod yn dangos sut y cafodd yr opsiynau a roddwyd eu rhestru mewn trefn gan ein hymatebwyr.

Y canlyniadau mwyaf cyffredin yn y rhestr oedd mewn perthynas â gwell darpariaeth cyfleusterau marchogaeth, yn hytrach nag am resymau sy'n ymwneud ag amgylchiadau personol a allai effeithio ar gyfranogiad.

Mwy o farchogaeth oddi ar y ffordd oedd yr ymateb mwyaf poblogaidd sy'n awgrymu bod y math hwn o fynediad i farchogwyr yn cael ei ffafrio gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr, er gwaethaf y nifer uwch o beryglon posibl a'r amgylchedd nad oes modd ei reoli i'r un graddau.

| *Rank* | *Options* |
|---|---|
| 1 | More off-road riding |
| 2 | Circular routes |
| 3 | Horse friendly surfaces |
| 4 | Parking provision |
| 5 | Improved maintenance |
| 6 | More local equestrian facilities |
| 7 | Easier to use gateways |
| 8 | More time |
| 9 | Fewer competing demands |
| 10 | More money |

Ffigur 2 – Rhestru'r Opsiynau

### 7.8 Plant

Roedd y data a ddychwelwyd mewn perthynas â chyfranogiad plant yn fwy cyfyngedig, ond roedd canlyniadau'r arolwg yn darparu rhywfaint o ddata defnyddiol a dangosol.

Dywedodd 76% o'r cyfranogwyr nad oeddent yn caniatáu i'w plant farchogaeth ar eu pen eu hunain. Dywedodd dros dri chwarter yr ymatebwyr fod hyn oherwydd bod y plentyn/plant yn **rhy ifanc**, dywedodd dros hanner ei fod oherwydd **peryglon ar y ffordd** a chyfleoedd **marchogaeth oddi ar y ffordd cyfyngedig**.

O ran plant, dywedodd 66% o'r ymatebwyr nad oedd eu plant yn gallu cael mynediad at unrhyw fath o farchogaeth oddi ar y ffordd. Nododd 21% fod mynediad oddi ar y ffordd ar gael, ond dim ond os oedd y plentyn/plant yng nghwmni oedolyn.

Mae'r canlyniadau uchod yn dangos bod plant o dan 13 oed fel rheol yng nghwmni oedolyn pan fyddant yn marchogaeth/gyrru. Roedd y canlyniad hwn i'w briodoli i raddau helaeth i oedran y plentyn/plant. Roedd y canlyniad hwn i'w ddisgwyl, mae marchogaeth/gyrru ceffylau yn gamp a all fod yn beryglus, beth bynnag yw'r dylanwadau allanol, yn dibynnu ar oedran a phrofiad y ceffyl a'r marchog.

Dewisodd 59% o'r ymatebwyr beryglon ar y ffordd a chyfleusterau marchogaeth cyfyngedig oddi ar y ffordd fel ail reswm dros fynd gyda phlant. Gyda chanlyniad sy'n dynodi pryder mewn perthynas â pheryglon ar y ffordd, mae canlyniad cyfatebol yn dynodi diffyg darpariaeth oddi ar y ffordd i'w ddisgwyl.




### 7.9 Adnoddau

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (45%) i'n harolwg yn dod o fewn y grŵp incwm blynyddol rhwng £25,000 a £49,999, mae gan 33% incwm aelwyd o lai na £25,000 ac mae gan 22% incwm cartref o dros £50,000.

Roedd adroddiad a gomisiynwyd gan North Lancashire Bridleways Associated (2009) yn dynodi bod y gost flynyddol o gadw ceffyl yn £4,752. Datgelodd arolwg BETA 2023 mwy diweddar fod perchnogion ceffylau wedi gwario rhwng £1,548 a £3,092 yn fisol ar ffioedd lifrai (llety ceffylau) yn unig. Cynhyrchodd y BHS daflen yn 2014 yn manylu ar y gwahanol gostau o gadw ceffyl neu ferlen, gweler atodiad 3.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ein harolwg (70%) yn talu, ar gyfartaledd, rhwng £100 a £399 ar bob ceffyl. Wedi'i dalgrynnu i fyny i wariant blynyddol, mae'r gwariant misol cyfartalog yn cyfateb i £2,400 y flwyddyn, fesul ceffyl. Mae'r ffigur hwn, sy'n seiliedig ar ddata Sir Gaerfyrddin, yn dangos bod y rhan fwyaf o berchnogion ceffylau fel arfer yn ymrwymo tua 8% o gyfanswm incwm blynyddol eu haelwyd i gadw un ceffyl.

Ar gyfer yr 28% o'r ymatebwyr sy'n cadw dau geffyl, mae'r ymrwymiad ariannol yn cynyddu i 16% o incwm

blynyddol cyfartalog yr aelwyd fel y'i hadroddwyd.

Yn 2008 datgelodd ymchwil Banc Swydd Efrog mai cost gyfartalog hobi gweithgar yn y DU yw £279 y flwyddyn. Nid oes ymchwil debyg fwy diweddar wedi'i gynnal ond hyd yn oed ar ôl ychwanegu chwyddiant blynyddol at ffigur 2008, mae'n amlwg bod cyfanswm y gwariant blynyddol ar hobi marchogaeth yn llawer uwch na chyfartaledd y DU.

Yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2020, sef y cyfnod yn arwain at y pandemig coronafeirws (COVID-19), incwm canolrifol aelwydydd yn y DU oedd £29,900 *(Arolwg Cyllid Aelwydydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol).* Mae data CThEF yn dangos mai cyflog cyfartalog y DU ar ddechrau 2022 oedd £24,600.

Mae data ein harolwg yn dangos bod o leiaf 33% o berchnogion ceffylau Sir Gaerfyrddin yn ariannu eu perchnogaeth ceffylau ar incwm aelwyd sy'n is na chyfartaledd y DU. Mae hyn yn dangos ymrwymiad sylweddol i'r gamp o ystyried y straen ariannol y mae hobi drud yn debygol o roi ar incwm yr aelwyd.

Fodd bynnag, gallwn weld o'r data bod incwm aelwyd y rhan fwyaf o ymatebwyr naill ai'n cyrraedd cyfartaledd y DU neu'n rhagori arno, ac yn yr achosion hyn gallai'r gost flynyddol llawer uwch na'r cyfartaledd o farchogaeth/gyrru car a cheffyl gael ei hystyried yn fwy fforddiadwy.

### 7.10 Marchogaeth ac Economi'r Sir

Ar sail ffigurau cynharach, amcangyfrifwyd bod yna boblogaeth geffylau weithgar o dros ddeng mil yn Sir Gaerfyrddin. Os tybiwn fod y gwariant mwyaf cyffredin o £200 i £399 y mis (£3,600 y flwyddyn) yn cael ei wneud ar y ceffylau hynny sydd mewn gwaith, gallwn amcangyfrif bod gwariant marchogol fesul blwyddyn gan breswylwyr Sir Gaerfyrddin yn fwy na £46,000,000.

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod 136 o ymatebwyr wedi dweud eu bod wedi gwario 76%-100% o'u cyllideb farchogol yn eu hardal leol (o fewn 5 milltir) gyda 120 o ymatebwyr yn gwario rhwng 50% a 75% o'u cyllideb farchogol yn lleol. Yn seiliedig ar yr amcangyfrif o gyfanswm y gwariant marchogol uchod, mae'r arferion gwariant hyn yn cyfrannu llawer iawn at economi Sir Gaerfyrddin.

Ymatebodd 42 o ymatebwyr o'r tu allan i Sir Gaerfyrddin i'r ymgynghoriad. Dywedodd y mwyafrif eu bod yn ymweld â'r Sir at ddibenion marchogaeth yn fisol gyda chyfran sylweddol yn ymweld yn wythnosol.

Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod wedi teithio dros 50 milltir er bod y gyfran fwyaf yn teithio 30 milltir ar gyfartaledd.

Yn ôl y sôn, roedd 59% o'r ymweliadau marchogaeth ar gyfer cyfleusterau marchogaeth pleser. Yn ôl y sôn, roedd ymweld ar gyfer cystadlaethau, gwasanaethau marchogaeth neu i weld ffrind/teulu i gyd yn rhesymau anaml iawn, 15%, 12% a 12% yn y drefn honno.

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl nad ydynt yn breswylwyr eu bod yn gwario llai na £100 fesul ymweliad marchogaeth, yn ôl pob tebyg oherwydd nad oedd hyd yr arhosiad a'r pellter a deithiwyd yn golygu bod angen llety.

Gyda dim ond 42 o ymatebwyr o'r arolwg yn dod o'r tu allan i Sir Gaerfyrddin, nid ydym o'r farn bod digon o ddata i gyfrifo'n gywir y cyfraniad y mae marchogaeth yn ei wneud i'r diwydiant twristiaeth yn Sir Gaerfyrddin.

Fodd bynnag, gallwn weld o'r data a gasglwyd nad yw'n ymddangos bod ymwelwyr marchogol i'r Sir yn cyfrannu llawer i'r economi gyda gwariant nodedig.

Gydag ymwelwyr yn mwynhau cyfleusterau sy'n rhad ac am ddim ar adeg eu defnyddio ac yn cadw gwariant o dan £100, ymddengys mai preswylwyr Sir Gaerfyrddin sy'n cadw ceffylau yn hytrach na thwristiaid/ymwelwyr marchogol sy'n cyfrannu fwyaf at economi'r Sir.

Er mwyn llywio unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol tuag at gyfleusterau marchogaeth yn y Sir a allai annog pobl nad ydynt yn breswylwyr, gofynnwyd i gyfranogwyr yr arolwg beth fyddai'n eu hannog i ymweld â Sir Gaerfyrddin yn amlach. O'r 7 opsiwn, y rhai a ddewiswyd fwyaf oedd [1]arwynebau addas i geffylau, [2]llwybrau cylchol a [3]darparu mannau parcio ar gyfer faniau ceffylau.

Ni ellir profi y byddai'r mathau hyn o welliannau i gyfleusterau marchogaeth yn arwain at wariant ychwanegol sylweddol gan ymwelwyr, yn enwedig gan eu bod yn debygol o fod yn berthnasol i gyfleusterau sydd am ddim ar adeg eu defnyddio. Fodd bynnag, gan eu bod yn welliannau y mae cymuned farchogaeth breswyl Sir Gaerfyrddin hefyd wedi'u blaenoriaethu, gallent wella cyfleoedd marchogaeth i breswylwyr gan hefyd ddenu mwy o ymwelwyr a allai aros yn hirach a gwario mwy.

### 7.11 Busnes Marchogaeth yn Sir Gaerfyrddin

Cymerodd 17 o fusnesau ran yn yr arolwg gyda 88% o'r ymatebwyr yn dweud bod 80-100% o'u model busnes yn ymwneud â marchogaeth.

Roedd y busnesau a gymerodd ran yn gyflogwyr bach i raddau helaeth, gyda 65% yn cyflogi llai na 2 aelod o staff. Dim ond 6% o'r busnesau a gymerodd ran a ddywedodd eu bod yn cyflogi 10-20 o bobl, ac nid oedd yr un yn cyflogi mwy nag 20. Mae ystadegau Llywodraeth y DU yn ystyried unrhyw fusnes sydd â llai na 50 o weithwyr yn 'fach' *(www.gov.uk Business population estimates 2021).*

Mae mwy na hanner y busnesau a ymatebodd i'r arolwg wedi'u lleoli dros 20 milltir o'u cleientiaid, ychydig iawn felly oedd yn ystyried eu cleientiaid yn 'lleol' (a ddiffinnir yn yr arolwg fel llai na 5 milltir i ffwrdd).

Adroddwyd bod ymweliadau â'r busnesau a gymerodd ran fel arfer rhwng 1 ac 20 y dydd. Llai nag 5 ymwelydd y dydd oedd y canlyniad uchaf, ond dim o ychydig yr oedd hyn yn fwy na 5-10 a 10-20 o ymwelwyr y dydd. Dim ond 1 busnes a adroddodd fwy nag 20 ymwelydd y dydd.

Adroddodd 35% o'r busnesau a gymerodd ran drosiant blynyddol o rhwng £10,000 a 20,000 y flwyddyn, ac adroddodd 29% drosiant rhwng £20,000 a £50,000.

Nid yw cyfartaledd y DU neu'r cyfartaledd cenedlaethol ar gael er mwyn gwneud cymhariaeth uniongyrchol, ac mae nifer y staff a gyflogir yn effeithio ar ba mor broffidiol/hyfyw yw busnes marchogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn y pen draw.

### 7.12 Barn gan bobl and ydynt yn marchogaeth

Casglodd yr arolwg hefyd ddata gan y rheiny nad ydynt yn marchogaeth nac yn gyrru car a cheffyl ond sy'n dod ar draws marchogwyr wrth ddefnyddio rhai o'r un cyfleusterau.

Manteisiodd 39 ar y cyfle i gymryd rhan yn yr arolwg ar-lein.

**7.12.1** Roedd 90% o'r cyfranogwyr yn dod ar draws marchogwyr ar y rhwydwaith ffyrdd cyhoeddus, 32% yn dod ar eu traws ar ochr y ffyrdd a 16% ar ymylon y ffyrdd. Ym mhob achos roedd dros 80% yn teimlo'n gysurus wrth gwrdd â cheffylau yn yr amgylchedd hwn, yn achos ymylon ffyrdd roedd y canlyniad yn 100%.

Nid yw'r canlyniad hwn yn annisgwyl o ystyried yr amgylchedd ffisegol dan sylw. Mae gan y rhan fwyaf o rwydwaith ffyrdd y Sir briffyrdd sydd â lled defnyddiol o 3 metr o leiaf, ynghyd ag ymyl ffordd mewn llawer o achosion. Mae hyn yn rhoi digon o le i basio marchogwyr gan adael pellter rhesymol, o fewn terfynau'r briffordd.

**7.12.2** Dywedodd 32% o'r ymatebwyr eu bod wedi cwrdd â marchogwyr/gyrwyr car a cheffyl ar lwybrau hawliau tramwy cyhoeddus ac roedd 75% yn gyfforddus yn gwneud hynny.

Gyda chyfran mor fach o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ar gyfer aml-ddefnyddwyr, nid yw'r ffigur o 32% yn syndod. Mae achosion o farchogwyr yn cwrdd â defnyddwyr eraill yn debygol o fod yn gymharol isel lle mae gan farchogwyr hawl i gael mynediad at 10% yn unig o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus cyfan.

Mae cael tystiolaeth sy'n dynodi bod ¾ o'r ymatebwyr sy'n cwrdd â cheffylau ar lwybrau hawliau tramwy cyhoeddus yn gyfforddus i wneud hynny yn awgrymu tuedd o gydweithredu rhwng defnyddwyr ar y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.

**7.12.3** Yr amgylchedd mwyaf cyffredin nesaf lle adroddodd pobl nad oeddent yn farchogwyr eu bod yn cwrdd â marchogwyr oedd llwybrau beicio oddi ar y ffordd. Yn wahanol i bron pob sefyllfa arall, dywedodd 70% o'r cyfranogwyr nad ydynt yn gyfforddus yn rhannu'r lle gyda cheffylau.

Mae'r is-adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth yn cael cwynion yn weddol aml am farchogwyr sy'n defnyddio llwybrau beicio yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r cwynion fel arfer yn ymwneud â'r effaith a gaiff ceffylau ar wyneb y llwybrau beicio, naill ai'r difrod y maent yn ei achosi i'r deunydd wyneb neu eu bod yn gadael baw ar yr wyneb. Yn llai aml, y pryder a adroddir yw diogelwch pasio'n agos at geffylau wrth feicio neu gerdded. Mae'r cwynion hyn yn ategu canlyniadau ein harolwg.

Mae llawer o lwybrau beicio wedi'u datblygu at ddibenion Teithio Llesol a/neu deithio cynaliadwy. Mae'r mathau o ddefnyddwyr ar hyd y llwybrau hyn felly yn debygol o fod yn teithio i'r gwaith neu'r ysgol felly maent yn disgwyl amgylchedd glân lle gallant wisgo dillad ac esgidiau sy'n addas ar gyfer y gyrchfan. Yn y lleoliadau hyn mae'n debygol nad yw presenoldeb ceffylau yn cael ei dderbyn

Fel y soniwyd yn 6.1, mae data'r arolwg yn dangos bod gan feicwyr a marchogwyr ddemograffeg gwahanol iawn o ran oedran a rhywedd. Mae demograffeg yn bwysig oherwydd eu bod yn 'darparu dealltwriaeth eang o wahanol nodweddion poblogaeth'. *(Indeed.com 2020, Career Guide, What are Demographics?)*

Gall gwrthdaro demograffig arwain at werthoedd a goddefiannau gwahanol, gyda'r posibilrwydd o wahanol ddylanwadau marchnata allanol a chyfryngau cymdeithasol yn atgyfnerthu'r safbwyntiau hynny. Os mai beicwyr yw'r defnyddwyr mwyafrifol ar rwydwaith llwybrau beicio oddi ar y ffordd y Sir, yna gallai'r ddemograffeg wrthwynebol fod wedi cyfrannu at ganlyniad yr arolwg hwn.

**7.12.4** Roedd tua ¼ o'r cyfranogwyr yn y rhan hon o'r arolwg wedi cwrdd â marchogwyr naill ai mewn mannau agored cyhoeddus neu gyfleusterau preifat. Roedd 78% yn gyfforddus yn rhannu mannau agored cyhoeddus, roedd 100% yn hapus i rannu cyfleusterau preifat.

Yn debyg i ffyrdd cyhoeddus, nid yw mannau agored cyhoeddus yn aml yn gwthio marchogwyr i fod yn agos at ddefnyddwyr cyhoeddus eraill. Nid yw mannau agored fel arfer yn gyfyngedig, felly mae'r canlyniad yma i'w ddisgwyl. Yn debyg i lwybrau beicio, difrod i'r wyneb a baw yw rhesymau tebygol y 22% nad oeddent yn mwynhau rhannu'r lle.

Mae cyfleusterau preifat yn y cyd-destun hwn, fel y'u disgrifir ym mhennod 3, at ddibenion defnydd marchogol. Byddai'n annisgwyl dod o hyd i unrhyw unigolion sy'n anghyfforddus ynghylch rhannu gofod marchogaeth penodol gyda defnyddwyr marchogol.

**7.12.5** Cafodd y ddau amgylchedd arall yn yr arolwg ganlyniadau isel, sef palmentydd ar 16% ac 'arall' ar 11%.

Palmentydd oedd yr unig amgylchedd arall lle nad oedd pobl nad ydynt yn marchogaeth yn hapus i rannu'r gofod gyda marchogwyr.

Mae'r canlyniad hwn i'w ddisgwyl; mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn dweud 'rhaid i chi beidio â mynd â cheffyl ar lwybr troed neu balmant'. Mae palmentydd traddodiadol ar ochr y ffordd fel arfer o led cyfyngedig ac maent wedi'u bwriadu'n bennaf fel priffordd i gerddwyr, nid fel gofod rhannu defnydd neu aml-ddefnyddiwr.

**7.12.6** Ar gyfer y cyfranogwyr hynny nad oeddent yn hapus yn rhannu gofod gyda marchogwyr, dangosir y rhesymau a roddir isod:




Mae'r ddau ganlyniad uchaf yn cefnogi'r tueddiadau a nodwyd yn 6.10.3 o gwynion i'r Awdurdod am farchogwyr mewn mannau rhannu defnydd/aml-ddefnyddiwr.

Roedd yr awgrymiadau i liniaru'r pryderon a amlygwyd yn dilyn yr un thema, lleihau'r llanast a achosir gan geffylau oedd y mesur mwyaf poblogaidd, gyda lledu llwybrau a mannau pasio yn cael eu hawgrymu yn aml.

**7.12.7** Yn olaf, gofynnwyd i bobl nad oeddent yn marchogaeth a oeddent yn teimlo bod yna ddarpariaeth ddigonol ar gyfer marchogwyr yn y Sir. Roedd 70% yn teimlo nad oedd yna ddarpariaeth ddigonol.

Cafodd darpariaethau ychwanegol a awgrymwyd eu rhestru gan gyfranogwyr. Mwy o lwybrau pwrpasol oddi ar y ffordd oedd yr ateb a sgoriodd uchaf (79%) a'r ail ateb mwyaf poblogaidd oedd mwy o fynediad i gyfleusterau mannau agored presennol (64%). Roedd 61% yn teimlo bod angen gwella'r ddarpariaeth ar y ffyrdd a 43% yn teimlo bod angen mwy o gyfleusterau preifat.

Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu tueddiadau cyffredinol y cwestiynau cynharach lle roedd rhai mannau yn cael eu ffafrio ar gyfer gweithgareddau aml-ddefnyddiwr, ond lle mai'r unig lwybrau cyhoeddus oddi ar y ffordd a oedd yn cael eu hystyried yn briodol oedd y rheiny oedd wedi'u 'neilltuo' i ddefnydd marchogol megis llwybrau ceffylau a chilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig.

### 7.13 Aelodau Lleol a Chynghorau Cymuned


Roedd y cyfranogiad yn yr arolwg gan Aelodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned yn siomedig o isel, gyda dim ond un Aelod Lleol ac un Cyngor Cymuned yn cymryd rhan.

Adroddodd y cyfranogwyr am nifer uchel o farchogwyr a galw am well darpariaeth marchogaeth, ond oherwydd y nifer isel a gymerodd ran nid yw'r data o'r rhan hon o'r arolwg o lawer o werth.

### 7.14 Sefydliadau a Grwpiau

Cymerodd cyfanswm o 6 sefydliad/grŵp marchogaeth neu farchogaeth yn bennaf ran yn yr arolwg, ac roedd gan rai ohonynt (17%) rhwng 201 a 500 o aelodau.

I'r rhan fwyaf ohonynt, roedd y mwyafrif o'r aelodau yn byw Sir Gaerfyrddin a'u prif ddiddordebau oedd dressage, marchogaeth hwyl a hacio. Roedd hyn ychydig yn wahanol i ganlyniadau cynharach ein harolwg lle nad oedd dressage yn ymddangos fel disgyblaeth fwyaf poblogaidd. Mae disgyblaethau cystadleuol yn gyffredinol yn ymddangos yn llawer mwy yn yr adran hon o'r arolwg nag yn yr adrannau a gwblhawyd gan y marchogwyr eu hunain (gweler isod). Mae hyn yn awgrymu efallai nad yw marchogwyr cystadleuol wedi cymryd rhan yn yr arolwg.




Roedd 83% o'r sefydliadau/grwpiau yn teimlo nad oes cyfleusterau marchogaeth digonol yn y Sir ar gyfer anghenion eu haelodau.

Er bod llai o ffocws ar farchogaeth/gyrru nad yw'n gystadleuol, roedd 100% o'r ymatebwyr yn dal i deimlo bod angen mwy o ddarpariaeth marchogaeth oddi ar y ffordd yn y Sir a bod mwy o ddarpariaeth parcio faniau ceffylau yn welliant angenrheidiol.

Cafodd gwelliannau a oedd yn ymddangos yn eithaf cryf yn gynharach yn yr arolwg ac yn ymwneud mwy â 'chyfleusterau cyhoeddus' sgôr is yn yr adran hon; dim ond sgôr o 40% a gafodd cynnal a chadw, arwynebau cyfeillgar i geffylau a chynnal a chadw gwell.

Mae 67% o sefydliadau/grwpiau yn codi ffi tanysgrifio am aelodaeth ac mae'r mwyafrif wedi buddsoddi'r arian hwnnw yn ôl i'r clwb, yr aelodau a'r cyfleusterau. Dywedodd 33% eu bod wedi gwneud cyfraniad cyfleusterau/prosiectau sector cyhoeddus a dywedodd 17% eu bod wedi rhoi i elusennau.

Gyda grwpiau a sefydliadau mwy cystadleuol yn ymddangos yn y rhan hon o'r arolwg, nid yw'n syndod bod yr arian a ail-fuddsoddwyd o danysgrifiadau yn mynd tuag at ail-fuddsoddi o ryw fath yn hytrach na throsglwyddo'r arian ymlaen i gyrff allanol.

### 7.15 Sylwadau Ychwanegol

Mae crynodeb o'r 98 o sylwadau ychwanegol a gyflwynwyd fel rhan o'r arolwg yn cefnogi canfyddiadau cynharach o'r arolwg.

Mae cyfranogwyr yn nodi bod angen mynediad at ardaloedd marchogaeth diogel oddi ar y ffordd, bod yna ddiffyg llwybrau ceffylau a bod angen darparu llwybrau diogel ychwanegol i farchogwyr gyda gwell gwybodaeth am ble y gall marchogwyr gael mynediad i'r cyfleusterau hynny.


Caiff mynediad at lwybrau beicio ar gyfer marchogwyr ei godi'n benodol.

Roedd cynnal a chadw'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a phriffyrdd yn codi fel sylw dro ar ôl tro.

Roedd y sylwadau sy'n weddill yn canolbwyntio ar ddiogelwch ar y ffyrdd, gydag arwyddion a gwell addysg i ddefnyddwyr eraill y ffordd wedi'u crybwyll yn benodol.

Yr unig sylw a oedd i'w ddisgwyl ond nad oedd yn ymddangos yn y rhan hon o'r arolwg oedd y mater o ddarparu mannau parcio faniau ceffylau sydd wedi codi'n aml mewn mannau eraill.

## 8. Casgliadau




---

**8.1** Y tueddiadau cyffredinol sy'n dod i'r amlwg o'n hymchwiliad i farchogaeth a darpariaeth farchogol yn Sir Gaerfyrddin yw bod y cyfleusterau sydd ar gael yn amrywio o ran eu maint a'u ansawdd, yn ôl math ac ardal ddaearyddol.

**8.2** Yn seiliedig ar ffigurau microsglodyn Defra, mae cymaint â 16% o gyfanswm poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn cadw ceffylau, er bod y ganran sy'n cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau marchogol yn debygol o fod yn is na hyn.

**8.3** Ceir clystyrau o berchnogaeth ceffylau llawer uwch mewn rhai rhannau o'r Sir.

**8.4** Mae demograffeg y gymuned farchogol yn wahanol i hobïau chwaraeon cyffredin eraill megis cerdded, rhedeg a beicio.

**8.5** Roedd bron pawb a gymerodd ran yn yr arolwg yn teimlo nad oes digon o ddarpariaeth oddi ar y ffordd ar gyfer marchogaeth/gyrru car a cheffyl. Mae asesiad o'r ddarpariaeth yn y Sir, sy'n amwynder cyhoeddus yn hytrach nag yn gyfleuster masnachol, yn ategu'r farn hon

**8.6** Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus aml-ddefnyddiwr yn Sir Gaerfyrddin yn gyfyngedig ac yn dameidiog, ac yn gyfystyr â llai na 10% o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus cyfan.

**8.7** Ceir peth tystiolaeth sy'n awgrymu bod gan nifer o hawliau tramwy cyhoeddus yn y Sir hawliau sydd wedi'u tan-gofnodi, yn benodol llwybrau a gofnodwyd fel llwybrau troed cyhoeddus y gellid eu cofnodi'n fwy cywir fel llwybrau ceffylau neu gilffyrdd.

**8.8** Cododd marchogwyr a gyrwyr car a cheffyl nifer o bryderon ynglŷn â defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd yn ddiogel. Nid oes unrhyw ddata pendant am ddamweiniau i ategu risgiau gwirioneddol ar y ffyrdd wrth farchogaeth neu yrru car a cheffyl; fodd bynnag, mae datganiadau a gyhoeddwyd yn Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd (Cymru) 2013, data'r BHS ac erthyglau ar y cyfryngau yn dangos bod rhywfaint o'r canfyddiad risg yn rhesymol.

**8.9** Codwyd y mater o rwystrau i gyfranogiad mewn perthynas â mynediad i farchogaeth ar hawliau tramwy cyhoeddus ac ar Ffyrdd.

**8.10** Mae llawer i'w ystyried o ran mesurau a awgrymir i wella'r cyfleusterau cyhoeddus sydd i'w cael yn y Sir ar gyfer y gymuned farchogol. Mae ystyriaeth ac unrhyw gyflawni'r mesurau hynny yn y dyfodol yn rhychwantu sawl adran a gwasanaeth o fewn y Cyngor Sir.

**8.11** O'r marchogwyr yr adroddwyd amdanynt yn y Sir, mae gyrwyr car a cheffyl yn y lleiafrif, marchogaeth yw'r diddordeb marchogol mwyaf poblogaidd.

**8.12** Mae preswylwyr sy'n cadw ceffylau yn y Sir yn gwneud cyfraniad rheolaidd i'r economi leol, yn fwy nag a wneir gan hobïau poblogaidd eraill ar gyfartaledd, yn bennaf oherwydd y costau parhaus o gadw ceffyl(au).

**8.13** Y gweithgareddau y mae'r gymuned farchogol yn eu ffafrio yw'r rheiny sy'n rhad ac am ddim ar adeg eu defnyddio. Mae'r rhain yn gyfleusterau a reolir yn bennaf gan gyrff cyhoeddus.

**8.14** Yn ôl data ein harolwg, nid yw twristiaeth farchogol a phobl sy'n ymweld â'r Sir gyda cheffylau am resymau eraill yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi leol. Mae nifer yr ymwelwyr a adroddwyd yn isel, ac mae gwariant cyfartalog y rheiny sy'n ymweld hefyd yn isel. Mae'n debygol y gall darparu gwell cyfleoedd marchogaeth diogel oddi ar y ffordd arwain at fwy o gyfleoedd ar gyfer twristiaeth farchogol.

**8.15** Mae busnesau sy'n gweithredu yn Sir Gaerfyrddin sydd ag elfen sylweddol o farchogaeth yn rhan o'u model busnes ar y cyfan yn fach, ac mae'r niferoedd isel o weithwyr sy'n arwydd o'u proffidioldeb. Mae'r gost gymharol uchel o gadw ceffylau, y ffigurau economaidd a gyhoeddwyd gan BETA a'r ffigurau isel yn bennaf a adroddwyd gan fusnesau Sir Gaerfyrddin yn awgrymu bod

1. cyfranogiad busnesau yn yr arolwg yn isel
2. mae gwariant marchogaeth yn mynd i fusnesau nad ydynt yn ystyried eu hunain fel rhai sydd â model busnes sy'n seiliedig ar farchogaeth.

**8.16** Mae ein harolwg yn awgrymu bod preswylwyr Sir Gaerfyrddin nad ydynt yn marchogaeth, sy'n defnyddio cyfleusterau hamdden a mynediad, yn hapus i rannu lleoedd gyda marchogwyr a gyrwyr car a cheffyl yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd. Yr eithriad nodedig i hyn yw llwybrau beicio lle nad oedd y mwyafrif yn gyfforddus yn rhannu gyda cheffylau.

**8.17** Ychydig iawn o ddiddordeb oedd yn yr arolwg gan aelodau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned. Nid oedd unrhyw dueddiadau y gellid eu nodi o'r swm bach o ddata a gasglwyd.

**8.18** Mae'n ymddangos bod sefydliadau a grwpiau yn Sir Gaerfyrddin yn canolbwyntio mwy ar ddisgyblaethau cystadleuol na hacio/reidiau hwyl nad ydynt yn gystadleuol, sef y rhai a oedd fwyaf poblogaidd gydag ymatebwyr ein harolwg. Mae hyn yn awgrymu efallai na chafodd yr arolwg sylw llawn aelodau clybiau merlod a marchogaeth a marchogwyr cysylltiedig â chystadlaethau sydd â diddordeb mewn disgyblaethau cystadleuol.

**8.19** Yn ddiddorol, nododd y clybiau, y sefydliadau a'r grwpiau anghenion tebyg i'w haelodau a barn debyg sef bod darpariaeth y Sir yn annigonol.

**8.20** O'r sylwadau cyffredinol a gafwyd, y farn gryf gan gymuned farchogaeth Sir Gaerfyrddin yw bod diffyg darpariaeth oddi ar y ffordd ar gael i'r rheiny sy'n dymuno marchogaeth ceffylau a gyrru car a cheffyl.

**8.21** Mewn perthynas â marchogaeth ar y ffordd sy'n gyffredin yn y Sir, ystyrir bod mesurau lliniaru yn angenrheidiol i wneud y rhwydwaith ffyrdd yn ddiogel i'w ddefnyddio.

**8.22** Ceir barn gyffredinol ymhlith marchogwyr y dylid caniatáu ceffylau ar lwybrau beicio ac ar y llwybrau hynny sydd ar gael ac sy'n addas at ddefnydd marchogol; fodd bynnag, mae gan gerddwyr a beicwyr farn wahanol.

Am grynodeb o holl ganlyniadau'r ymgynghoriad a gyfrannodd at y strategaeth, gweler Atodiad 1

**Camau gweithredu**

Yn seiliedig ar y data a'r dystiolaeth a gasglwyd i lywio'r strategaeth hon ac o ystyried y Polisi a'r Ddeddfwriaeth sy'n llywio'r broses o ddarparu mynediad i'r cyhoedd yn Sir Gaerfyrddin, datblygwyd y camau canlynol.

Bydd ymrwymo i'r camau hyn ac ymdrechu i'w cyflawni erbyn y dyddiadau targed sydd wedi'u hamserlennu yn helpu'r awdurdod i gyflawni'r weledigaeth a nodir yn y strategaeth hon.

Mae camau gweithredu wedi'u datblygu'n ofalus i gyflawni newid cadarnhaol, yn bennaf o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r gweithredoedd hynny sy'n gofyn am adnoddau ychwanegol yn uchelgeisiol a byddent yn dibynnu i raddau helaeth ar adnoddau allanol, boed hynny'n ariannol, yn ffisegol neu'n ddynol.

| Cam gweithredu | Adran | Angen Amlwg | Budd Posibl i Fynediad i Farchogwyr | Dyddiad Targed | O fewn y cyllidebau sydd ar gael | Risg/Her |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1) Creu Grŵp Defnyddwyr Ceffylau (EUG) | Hawliau Tramwy Cyhoeddus | Dros 500 o aelodau o'r gymuned farchogaeth wedi cymryd rhan yn yr arolwg ar y Strategaeth Farchogaeth | Mae'n rhoi cyfle i randdeiliaid marchogaeth gyfrannu tuag at flaenoriaethu'r gwaith o gynnal a chadw a chynllunio gwelliannau ar draws y rhwydwaith mynediad i farchogwyr, yn ôl yr adnoddau sydd ar gael.<br><br>Gellir defnyddio'r grŵp defnyddwyr cilffyrdd presennol fel model ar gyfer Grŵp Defnyddwyr Ceffylau (EUG) newydd. | 2025 | Oes | Dargyfeirio adnoddau staff i benodi, cydlynu a rheoli grŵp rhanddeiliaid ychwanegol yn effeithiol.<br><br>Rheoli disgwyliadau aelodau'r grŵp |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2) Datblygu gweithlu cynnal a chadw marchogol gwirfoddol | Hawliau Tramwy Cyhoeddus | Roedd cynnal a chadw gwell yn 5ed safle o ran y camau gweithredu a ystyrir yn angenrheidiol i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad amlach.<br><br>Mae cyfranogiad yn yr arolwg yn dangos ffynhonnell bosibl o wirfoddolwyr gyda brwdfrydedd clir dros fynediad gan y gymuned farchogaeth. | Ni fyddai gweithlu gwirfoddol yn cael ei gyfyngu gan gyllidebau cyfyngedig yr awdurdod lleol.<br><br>Byddai gan wirfoddolwyr ddiddordeb personol mewn cadw cyfleusterau mynediad i farchogaeth ar agor ac ar gael. | 2026 | Oes | Cadw adnoddau staff presennol i reoli a chydlynu gweithlu gwirfoddol |
| 3) Develop PROW/Road network rating system for equestrian use | Hawliau Tramwy Cyhoeddus/ Priffyrdd | Mae data'r arolwg yn awgrymu bod barn gref nad oes digon o ddarpariaeth oddi ar y ffordd ar gyfer marchogaeth/gyrru car a cheffyl yn ddiogel yn Sir Gaerfyrddin.<br>Mae hawliau tramwy cyhoeddus aml-ddefnyddiwr yn agored i farchogwyr ar lai na 10% o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus cyffredinol.<br>Gallai'r rhwydwaith ffyrdd diddosbarth greu cysylltiadau gwerthfawr rhwng hawliau tramwy cyhoeddus a chyfleusterau mynediad eraill i farchogwyr.<br>Dangosodd yr arolwg fod y gweithgareddau a ffefrir gan farchogwyr yn defnyddio'r mathau hynny o gyfleusterau a reolir gan gyrff cyhoeddus yn bennaf. | Byddai system sgorio yn casglu'r holl ddata sydd ar gael ar hawliau tramwy cyhoeddus a ffyrdd mewn un lle.<br><br>Byddai'r system sgorio yn creu cronfa ddata â blaenoriaeth o lwybrau sy'n darparu ar gyfer marchogwyr neu a allai wneud hynny, o'u gwella rywfaint | 2027 | Oes | Dargyfeirio adnoddau staff i ddatblygu system newydd.<br><br>Gwrthdaro posibl rhwng canlyniadau sgorio a hierarchaethau rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a phriffyrdd. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3b) Gwella llwybrau sy'n fuddiol i farchogwyr pan fydd yr adnoddau yn caniatáu hynny | Hawliau Tramwy Cyhoeddus/ Priffyrdd | Gweler 3 | Gwella llwybrau mynediad i farchogaeth sydd â buddion amlwg i'r gymuned farchogaeth. | Parhaus | Na | Adnoddau sydd eu hangen i weithredu a chynnal gwelliannau. |
| 4) Asesu llwybrau troed cyhoeddus presennol dros dir sy'n eiddo i Cyngor Sir Caerfyrddin i weld a ydynt yn addas i'w huwchraddio i fod yn llwybrau ceffylau | Eiddo/ Unigolion sy'n Gyfrifol am y Safle | Mae data'r arolwg yn awgrymu bod barn gref nad oes digon o ddarpariaeth oddi ar y ffordd ar gyfer marchogaeth/gyrru car a cheffyl yn ddiogel yn Sir Gaerfyrddin.<br><br>Dangosodd yr arolwg fod y gweithgareddau a ffefrir gan y gymuned farchogol yn defnyddio'r mathau hynny o gyfleusterau a reolir gan gyrff cyhoeddus yn bennaf.<br><br>Mae preswylwyr nad ydynt yn marchogaeth a gymerodd ran yn yr arolwg ac sy'n defnyddio cyfleusterau hamdden a mynediad yn hapus i rannu lleoedd gyda marchogwyr a gyrwyr car a cheffyl yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd. | Potensial i gynyddu'r rhwydwaith llwybrau ceffylau dros dir sydd dan reolaeth yr Awdurdod Lleol.<br><br>Trwy ddefnyddio Gweithredu Hawliau o dan Gyfraith Gwlad (EDCL), gellir gweithredu'r broses uwchraddio yn gyflym ac yn rhad, gan ddarparu buddion i ddefnyddwyr yn brydlon. | 2028 | Oes | Addasrwydd y seilwaith llwybrau troed presennol.<br><br>Effaith ar reoli tir<br><br>Gwrthwynebiad gan ddefnyddwyr presennol<br><br>Dargyfeirio adnoddau staff i gynnal asesiadau. |
| 4b) Ailddosbarthu /uwchraddio'r Llwybrau Troed Cyhoeddus hynny a nodwyd fel rhai sy'n addas ar gyfer hawliau uwch ar draws tir sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin. | Eiddo/ Unigolion sy'n Gyfrifol am y Safle/ hawliau tramwy cyhoeddus | Gweler 4 | Rhwydwaith llwybrau ceffylau cynyddol dros dir sydd dan reolaeth yr Awdurdod Lleol.<br><br>Potensial i gynyddu mynediad i farchogwyr sy'n fwy eang a darparu cysylltiadau rhwng cyfleoedd mynediad presennol. | Parhaus | Oes | Dargyfeirio adnoddau staff i ffurfioli EDCLs.<br><br>Adnoddau sydd eu hangen i gynnal llwybrau wedi'u huwchraddio a fydd yn derbyn nifer cynyddol o ddefnyddwyr. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4c) Ailddosbarthu/uwch raddio'r Llwybrau Troed Cyhoeddus hynny a nodwyd fel rhai addas, **yn amodol ar welliannau**, ar gyfer hawliau uwch ar draws tir sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin. | Eiddo/ Unigolion sy'n Gyfrifol am y Safle/ hawliau tramwy cyhoeddus | Gweler 4 | Gweler 4b | Parhaus | Na | Sicrhau cyllid i wella llwybrau fel bod modd hailddosbarthu a'u defnyddio ar gyfer marchogaeth<br><br>Adnoddau sydd eu hangen i gynnal llwybrau wedi'u huwchraddio a'u gwella a fydd yn derbyn nifer cynyddol o ddefnyddwyr. |
| 5) Asesu tir sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin sy'n addas ar gyfer cyfleoedd mynediad caniataol ychwanegol i farchogwyr | Eiddo/Unigolion sy'n Gyfrifol am y Safle | Mae data'r arolwg yn awgrymu bod barn gref nad oes digon o ddarpariaeth oddi ar y ffordd ar gyfer marchogaeth/gyrru car a cheffyl yn ddiogel yn Sir Gaerfyrddin.<br><br>Dangosodd yr arolwg fod y gweithgareddau a ffefrir gan y gymuned farchogol yn defnyddio'r mathau hynny o gyfleusterau a reolir gan gyrff cyhoeddus yn bennaf.<br><br>Mae preswylwyr nad ydynt yn marchogaeth a gymerodd ran yn yr arolwg ac sy'n defnyddio cyfleusterau hamdden a mynediad yn hapus i rannu lleoedd gyda marchogwyr a gyrwyr car a cheffyl yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd. | Cynnydd posibl mewn mynediad i farchogwyr dros dir sydd dan reolaeth yr awdurdod lleol.<br><br>Gellir rheoli mynediad caniataol yn briodol i leihau gwrthdaro â defnyddwyr eraill. | 2028 | Oes | Addasrwydd y seilwaith presennol.<br><br>Effaith ar dir Rheoli<br><br>Gwrthdaro rhwng defnyddwyr<br><br>Gwrthwynebiad gan ddefnyddwyr presennol<br><br>Dargyfeirio adnoddau staff i gynnal asesiadau. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5b) Darparu llwybrau marchogaeth caniataol ar draws tir sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin lle mae asesiadau wedi canfod eu bod yn addas ac yn briodol. | Eiddo/Unigolion sy'n Gyfrifol am y Safle | Gweler 5 | Mwy o gyfleoedd mynediad i farchogwyr dros dir sydd dan reolaeth yr Awdurdod Lleol.<br><br>Potensial i gynyddu mynediad i farchogwyr sy'n fwy eang a darparu cysylltiadau rhwng cyfleoedd mynediad presennol. | Parhaus | Oes | Dargyfeirio adnoddau staff i ddatblygu a monitro trefniadau caniataol.<br><br>Adnoddau sydd eu hangen i gynnal a chadw tir sy'n cael ei dreulio yn sgil mynediad caniataol i farchogwyr. |
| 5c) Darparu llwybrau marchogaeth caniataol ar draws tir sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin lle mae asesiadau wedi canfod eu bod yn addas ac yn briodol, **yn amodol ar welliannau**. | Eiddo/Unigolion sy'n Gyfrifol am y Safle | Gweler 5 | Gweler 5b | Parhaus | Na | Sicrhau cyllid i wella tir fel bod modd ei ddefnyddio ar gyfer marchogaeth<br><br>Adnoddau sydd eu hangen i gynnal tir wedi'i uwchraddio a'i wella a fydd yn cael ei dreulio yn sgil mynediad caniataol i farchogwyr. |
| 6) Blaenoriaethu ymchwiliad i Hawliau Uwch heb eu cofnodi ar draws y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. | Hawliau Tramwy Cyhoeddus | Ceir tystiolaeth yn y cofnod hawliau tramwy cyhoeddus bod sawl llwybr cyhoeddus wedi'u tan-gofnodi ac y dylent fod â hawliau uwch. | Gall cofnodi hawliau'n gywir wella'r cynnig mynediad i farchogwyr a gyrwyr car a cheffyl trwy ychwanegu llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig a/neu gilffyrdd. | 2030 | Oes | Cynnydd sylweddol yn y baich ar staff gwneud gorchmynion o fewn y tîm Mynediad i Gefn Gwlad.<br><br>Amser sydd ei angen ar gyfer ymchwiliad sy'n debygol o olygu lleihad mewn gwaith gweithredol arall. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6b) Prosesu Gorchmynion priodol i ddiwygio'r cofnod cyfreithiol lle caiff hawliau uwch eu honni'n rhesymol a bod yr adnoddau staff yn caniatáu hynny. | Hawliau Tramwy Cyhoeddus | Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i brosesu Gorchymyn priodol i gywiro'r Map Diffiniol a'r Datganiad pan nodir gwall neu hepgoriad. | Cynnydd posibl mewn hawliau tramwy cyhoeddus diffiniol i farchogwyr. | 2035 | Na | Mwy o wariant ar brosesu Gorchmynion cyfreithiol heb unrhyw atebolrwydd am adennill costau.<br><br>Goblygiadau adnoddau ar gyfer cynyddu manyleb asedau hawliau tramwy cyhoeddus o lwybr troed i lwybr ceffylau/cilffordd.<br><br>Methiant mewn dyletswydd statudol os nad yw'r broses Gorchymyn yn cael ei chychwyn lle caiff hawliau sy'n debygol o fod wedi'u tan-gofnodi eu nodi. |
| 7) Creu a blaenoriaethu cofnod o Lwybrau Troed Cyhoeddus sy'n addas ar gyfer hawliau uwch. | Hawliau Tramwy Cyhoeddus | Mae data'r arolwg yn awgrymu barn gref nad oes digon o ddarpariaeth oddi ar y ffordd ar gyfer marchogaeth/gyrru car a cheffyl yn ddiogel yn Sir Gaerfyrddin.<br><br>Mae llwybrau hawliau tramwy cyhoeddus aml-ddefnyddiwr sy'n agored i farchogwyr yn llai na 10% o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus cyffredinol. | Gall nodi hawliau tramwy cyhoeddus addas i'w huwchraddio i hawliau uwch arwain at gynnydd mewn hawliau tramwy cyhoeddus marchogol yn y dyfodol.<br><br>*Sylwer: Caiff hawliau tramwy cyhoeddus sy'n addas yn ffisegol ar gyfer hawliau uwch eu nodi trwy arolwg rhwydwaith gwirfoddolwyr 2024-25.* | 2026 | Oes | |
| 7b) Ceisio neilltuo llwybrau trwy drafod â thirfeddianwyr lle mae cyfleoedd yn codi a'r adnoddau yn caniatáu hynny | Hawliau Tramwy Cyhoeddus | Gweler 7 | Gall trafod yn llwyddiannus â thirfeddianwyr perthnasol arwain at neilltuo mwy o hawliau tramwy cyhoeddus marchogol yn Sir Gaerfyrddin. | Parhaus | 50:50 | Mae rhai trafodaethau yn debygol o fod angen iawndal ariannol er mwyn dod i ganlyniad llwyddiannus.<br><br>Dargyfeirio adnoddau staff i drafod a chofnodi hawliau uwch. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8) Gwahodd marchogwyr i ymateb i ymgynghoriadau yn y dyfodol* ar gyfer diweddaru'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol i nodi'r ardaloedd lle maent yn teimlo y byddai modd creu llwybrau aml-ddefnyddiwr fel rhan o seilwaith beicio newydd neu bresennol.<br>**Ymgynghoriad Map Rhwydwaith Teithio Llesol nesaf 2026* | Strategaeth Trafnidiaeth / Priffyrdd/ Hawliau Tramwy Cyhoeddus/ Hamdden Awyr Agored | Roedd data'r arolwg yn dangos barn gyffredinol ymhlith marchogwyr y dylid caniatáu ceffylau ar lwybrau beicio.<br><br>Adolygiad Sustrans o lwybrau sy'n addas ar gyfer mynediad ehangach ar y gweill.<br><br>Mae'r canllawiau Teithio Llesol cyfredol yn nodi, lle mae galw mawr gan farchogwyr ar hyd llwybr, y dylid asesu pa mor ddichonol fyddai eu cynnwys. | Cyfle i'r gymuned farchogaeth ddarparu sylwadau a mewnwelediad tuag at y gwaith o ddatblygu Map Rhwydwaith Teithio Llesol a lle gellid cael buddion i farchogwyr. | Parhaus | Oes | Gall newidiadau Gweinidogion Llywodraeth Cymru effeithio ar Bolisi Teithio Llesol. |
| 8b) Darparu mynediad aml-ddefnyddiwr dros rannau penodol o'r rhwydwaith Teithio Llesol lle mae'r adnoddau yn caniatáu hynny. | Strategaeth Trafnidiaeth / Priffyrdd/ Hawliau Tramwy Cyhoeddus/ Hamdden Awyr Agored | Roedd data'r arolwg yn dangos barn gyffredinol ymhlith marchogwyr y dylid caniatáu ceffylau ar lwybrau beicio.<br><br>Mae'r canllawiau Teithio Llesol cyfredol yn nodi, lle mae galw mawr gan farchogwyr ar hyd llwybr, y dylid asesu pa mor ddichonol fyddai eu cynnwys. | Potensial ar gyfer mynediad i rannau addas o rwydwaith o lwybrau oddi ar y ffordd lle gellir bodloni safonau priodol.<br><br>Mynediad posibl i lwybrau beicio ar y ffordd yn aml wedi'u gwahanu oddi wrth lif traffig a/neu yn ddarostyngedig i ddarpariaethau diogelwch defnyddwyr ychwanegol.<br><br>Potensial i gynyddu mynediad i farchogwyr sy'n fwy eang a darparu cysylltiadau rhwng cyfleoedd mynediad presennol. | Parhaus | Na | Addasrwydd y seilwaith presennol.<br><br>Effaith ar reoli tir<br><br>Gwrthdaro rhwng defnyddwyr a gwrthwynebiad gan ddefnyddwyr presennol (gweler canlyniadau'r arolwg).<br><br>Sicrhau cyllid i dalu costau seilwaith nad ydynt wedi'u talu gan gyllid Teithio Llesol.<br><br>Costau cynnal a chadw cynyddol gyda mwy o ddefnyddwyr a goblygiadau traul yn sgil defnydd marchogol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9) Ystyried unrhyw newid deddfwriaethol yn y dyfodol, a gynigir o dan Fil Diwygio Mynediad Llywodraeth Cymru, wrth gynllunio unrhyw gynlluniau cynnal a chadw neu wella hawliau tramwy cyhoeddus. | Hawliau Tramwy Cyhoeddus | Proposed access reform proposals would see access to some/all of public footpath network widened to horse riders and cyclists. | Byddai cynigion diwygio mynediad arfaethedig yn golygu bod mynediad i rannau o'r rhwydwaith llwybrau troed cyhoeddus/y cyfan ohono yn cael ei ehangu i farchogwyr a beicwyr. | Parhaus | Na | Cynnydd sylweddol mewn costau seilwaith.<br><br>Bil Diwygio Mynediad ddim yn arwain at newid deddfwriaethol. |
| 10) Adolygu'r broses gymeradwyo ar gyfer ceisiadau am arwyddion Rhybuddion Ceffylau ar ffyrdd cyhoeddus | Rheoli Traffig | Cafodd nifer o bryderon eu codi gan farchogwyr a gyrwyr cerbydau a gymerodd ran yn yr arolwg mewn perthynas â defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd yn ddiogel.<br><br>Risgiau sy'n gysylltiedig â marchogaeth/gyrru ar y ffordd wedi'u hategu gan ystadegau damweiniau ffyrdd y BHS<br><br>Mae'r ymatebion i'r arolwg marchogaeth ar y ffordd yn awgrymu bod mesurau lliniaru yn cael eu hystyried yn angenrheidiol i wneud y rhwydwaith ffyrdd yn ddiogel i'w ddefnyddio. | Ychwanegu arwyddion rhybuddion ceffylau mewn lleoliad mwy strategol.<br><br>Gall rhannau o'r rhwydwaith ffyrdd a ddefnyddir yn aml gan farchogwyr nad oes ganddynt ddewis arall oddi ar y ffordd hefyd elwa o arwyddion diogelwch. | 2028 | Oes | Cost o osod a chynnal arwyddion ychwanegol.<br><br>Anhrefn arwyddion - gall gormod o arwyddion olygu bod gyrwyr yn methu â phrosesu'r wybodaeth a ddangosir, gan arwain at risg uwch o ddigwyddiad. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae mapiau gwres poblogaeth ceffylau a data arolwg yn dangos bod ceffylau yn cael eu cadw/eu hymarfer ar draws y Sir gyfan, heb fod wedi'u cyfyngu i rwydweithiau llwybrau ceffylau/cilffyrdd.<br>Y meini prawf ar gyfer cymeradwyo arwyddion rhybuddion ceffylau cyfredol yw presenoldeb llwybrau ceffylau neu gilffyrdd yn y cyffiniau. | | | | |
| 11) Nawdd Busnesau Lleol ar gyfer Seilwaith Mynediad | Pawb | Roedd data'r arolwg yn dangos gwariant marchogaeth uchel bob blwyddyn ar gadw ceffylau.<br>Roedd y data busnesau ceffylau a gafwyd yn gyfyngedig; fodd bynnag, gall y buddion economaidd i fusnesau lleol sy'n elwa o wariant marchogaeth olygu gwerth marchnata wrth noddi seilwaith marchogaeth. | Seilwaith marchogaeth wedi'i ariannu, sy'n addas i'r diben, nad yw wedi'i gyfyngu gan gyllidebau awdurdodau lleol cyfyngedig. | Ddim yn bendant | Oes | Gweinyddu'r cynllun nawdd |
| 12) Map Rhyngweithiol o Fynediad i Farchogwyr | TG/Pawb | Ddim yn berthnasol | Byddai'r map yn darparu adnodd clir, "un stop" i nodi cyfleoedd mynediad yn Sir Gaerfyrddin i breswylwyr sy'n marchogaeth, twristiaid ac ati. | 2030 | Na | Cost i'w ddatblygu<br>Adnoddau sydd eu hangen i gadw'r mapiau wedi'u trwyddedu ac yn gyfredol. |